

Seiniau'r Gymraeg

I

Llafariaid

- | | |
|----------------------|-------------------------|
| 1 mab plas rhan parc | 5 llun un pump punt |
| 2 de ble merch gweld | 6 dŵr ffŵl cwm wrth |
| 3 gwir mis prin inc | 7 dyn tŷ bryn byw yn fy |
| 4 bod ffôl coleg ond | |

II

Deuseiniaid

- | | | |
|--------------|-------------|-------------|
| 8 gwraig | 9 Cymraes | 10 dau |
| 11 mawr | 12 dweud | 13 gweithio |
| 14 meysydd | 15 newydd | 16 oer |
| 17 troi | 18 cyffrous | 19 brown |
| 20 lliw | 21 byw | 22 Duw |
| 23 gwyn bwyd | | |

III

Cytseiniaid

- | | |
|------------------|--------------------|
| 24 bach seboni | 25 cae clocliau |
| 26 chwech achos | 27 dyma codi |
| 28 heddiw diwedd | 29 felly yfed |
| 30 ffatri coffi | 31 gwers agor |
| 32 dringo angen | 33 hwyl hefyd |
| 34 jam garej | 35 lolfa doliau |
| 36 lleol colli | 37 moron tymor |
| 38 nos tynnu | 39 poeth popeth |
| 40 pen a phensil | 41 radio caru |
| 42 rhestr rhoi | 43 sych dwsin |
| 44 tocyn ateb | 45 athrawes pethau |

IV


Aceniad

- | | |
|-------------|-------------|
| 46 pawb | 47 môr |
| 48 clogwyn | 49 Indiad |
| 50 Iwerddon | 51 meddygol |
| 52 paratoi | 53 osgoi |
| 54 glanhau | 55 caniatáu |

V

Yr Wyddor

A B C CH D DD E F FF G NG H I L LL
M N O P PH R RH S T TH U W Y (J)



Rheilffordd, Tal-y-llyn

Rhagarweiniad

Rhan un Y rhan gyntaf

1 Beth sy yma?




Aderyn sy yma.

2 Beth sy yma?



Ffrog sy yma.

3 Beth sy yma?



Llong sy yma.

4 Beth sy yma?



Siwgr sy yma.

5 Beth sy yma?



Allwedd sy yma.

6 Beth sy yma?



Clogwyn sy yma.

7 Beth sy yma?



Grisiau sy yma.

8 Beth sy yma?



Bwrdd sy yma.

Rhan dau Yr ail ran

1 Oes ci gennych chi?



Oes, mae ci gen i.

2 Oes llwy gennych chi?



Oes, mae llwy gen i.

3 Oes tocyn gennych chi?



Oes, mae tocyn gen i.

4 Oes papur gennych chi?



Oes, mae papur gen i.

5 Oes wy gennych chi?



Oes, mae wy gen i.

6 Oes merch gennych chi?



Oes, mae merch gen i.

7 Oes tŷ gennych chi?



Oes, mae tŷ gen i.

8 Oes nofel gennych chi?




Oes, mae nofel gen i.

9 Llyfrau ydyn nhw?




Ie, llyfrau ydyn nhw.

10 Ceir ydyn nhw?




Ie, ceir ydyn nhw.

11 Ffyrnc ydyn nhw?



Ie, ffyrnc ydyn nhw.

12 Cyllyll ydyn nhw?



Ie, cyllyll ydyn nhw.

13 Tatws ydyn nhw?




Ie, tatws ydyn nhw.

14 Esgidiau ydyn nhw?



Ie, esgidiau ydyn nhw.

15 Platiau ydyn nhw?



Ie, platiau ydyn nhw.

16 Hosanau ydyn nhw?



Ie, hosanau ydyn nhw.

an tri Y drydedd ran

Tom Jones

Bore da.
Tom Jones ydw i.
Meddyg ydw i.
Cymro ydw i hefyd ond rydw i'n gweithio yn
Ariannin.
Mae gwraig gen i. Dyma hi 'nawr.



Mari Jones

Sut ydych chi?
Mari Jones ydw i, gwraig Tom.
Cymraes ydw i.
Rydw i'n dod o Aberystwyth ond rydyn ni'n byw
yn Ariannin.
Mae mab a merch gynnon ni, Dewi a Branwen.
Mae Dewi yma. Dyma fe.



Dewi

Dewi ydw i, mab Tom a Mari Jones.
Maen nhw'n byw yn Chubut yn Ariannin ond rydw
i'n byw yma yng Nghymru.
Myfyriwr yn Aberystwyth ydw i.
Rydw i'n hoffi nofio a chwarae rygbi.
Mae chwaer gen i, Branwen. Dyma hi.



Branwen

Branwen ydw i, chwaer Dewi a merch Tom a Mari
Jones.
Rydw i'n byw gyda 'mam a 'nhad yn Chubut ond
rydw i eisiau gweithio yng Nghymru.
Rydw i eisiau bod yn actores.
Hwyl fawr, 'nawr.



Gwers un (1)

1

Y wers gyntaf
Cyrraedd**Rhan un**

Tom Jones

Tom Jones ydy fy enw i.
Cymro ydw i, ond rydw i'n byw yn Chubut.
Rydych chi'n gwybod ble mae Chubut.
Yn Ariannin, wrth gwrs.
Rydw i'n gweithio yn ysbyty Trelew, 'nawr.
Mae gwyliau gen i. Chwe mis, a dweud y gwir.
Rydyn ni eisiau gweld Dewi, y mab.
Mae e yng Nghymru. Mae e yn y coleg yn
Aberystwyth.
Myfyriwr ydy e.
Felly, rydw i, Mari'r wraig a Branwen, y ferch, yn
cymryd gwyliau yng Nghymru.
Rydyn ni'n hedfan heddiw.
Rydw i wrth ochr Mari yn y llun.
Cymraes ydy hi hefyd, ond mae hi'n dod o'r
gorllewin.
Rydw i o'r de.
Tu ôl i Mari mae Branwen, fy merch.
Mae hi eisiau bod yn actores yng Nghymru.
Mae hi'n un deg wyth oed 'nawr.
Mae hi eisiau gweld Dewi'n fawr iawn.
Rydyn ni i gyd eisiau gweld Cymru'n fawr iawn.

Rhan dau

Ar y trêrn

Branwen Ble mae'r tocynnau, mam?
Mari Maen nhw gen i yma yn y bag.
Branwen A ble mae llythyr Dewi?
Mari Mae e yn y bag hefyd gyda'r tocynnau.
Branwen Ond ble mae 'nhad?
Mari Mae e yn y tŷ bach, os wyt ti eisiau gwybod.
Branwen Ond rydyn ni'n cyrraedd gorsaf Caerdydd cyn bo
hir.
Mari Paid â phoeni, Branwen. Dyma fe. Mae e'n dod
'nawr, bach.

Y casglwr tocynnau

Casglwr Tickets, please.
Branwen Maen nhw gennych chi, 'nhad.
Casglwr O! Cymry ydych chi!
Tom Ie, Cymry ydyn ni ond rydyn ni'n byw yn Chubut.
Casglwr Chubut! Ble yn y byd mae Chubut?
Tom Ym Mhatagonia.
Casglwr Ym Mhatagonia! Wel, croeso 'nôl i Gymru, syr.
Rydych chi'n siarad Cymraeg yn dda.
Tom Diolch yn fawr. Dyma'r tocynnau.
Oes stondin papurau yma?
Casglwr Oes, dyma fe ar y dde. Hwyl fawr ichi!
Tom Hwyl fawr!

Cwrdd â Dewi

Dewi Mam, sut ydych chi?
Mari Dewi, rwyt ti'n edrych yn iawn, beth bynnag.
Dewi Rydw i'n edrych yn iawn ac rydw i'n teimlo'n iawn
hefyd. Ond sut wyt ti, Branwen?
Branwen Eithaf da, ond rydw i wedi blino ar ôl y daith.
Dewi Ond ble yn y byd mae 'nhad?



Mari Dyna fe wrth y stonin papurau. Mae e'n prynu "Y Llais", siŵr o fod.

Dewi "Y Llais"! Ach y fi! Dyna bapur.

Y tywydd

Branwen Rydw i'n oer.

Dewi Mae hi'n oer iawn yng Nghaerdydd 'nawr ond, diolch byth, mae hi'n sych.

Branwen Mae hi'n sych gartref hefyd ond mae hi'n boeth yno 'nawr.

Dewi Rydw i'n hoffi'r glaw. Mae hi'n bwrw glaw'n aml yng Nghymru.

Branwen Ydy, ydy, gwaetha'r modd.

Gwers dau (2)

2

Yr ail wers
Yng Nghaerdydd



Rhan un

Tom

Prifddinas Cymru ydy Caerdydd.

Dydy'r ddinas ddim yn fawr fel Buenos Aires a Llundain ond mae hi'n braf.

Yma mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac mae castell hardd yng nghanol y dref.

Yn y ganolfan ddinesig mae adeiladau gwych ac ar gwr y dref mae pentref prydferth Sain Ffagan.

Yno mae Amgueddfa Werin Cymru. Dyna le diddorol.

Yn y parc o gwmpas y plas mae adeiladau o bob rhan o Gymru gan gynnwys tai, ffermdai, capel, gefail a ffatri wlân.

Mae Mari'n hoffi siopau Caerdydd ond does dim diddordeb gen i mewn siopa.

Ond mae diddordeb mawr gen i mewn rygbi.

Dydy Mari a Branwen ddim yn hoffi rygbi.

A dweud y gwir, dydyn nhw ddim yn deall y gêm o gwbl.

Rydw i'n hoffi rygbi yn fawr iawn ac rydw i'n gobeithio gweld Cymru'n chwarae cyn bo hir ar Y Maes Cenedlaethol.

Yn ffodus, rydyn ni'n aros mewn gwesty yn ymyl Y Maes Cenedlaethol.

Rhan dau
Gweld y stafell



Branwen Dydw i ddim yn hoffi'r stafell yma. Mae hi'n fach ac mae hi'n dywyll.

Tom Ond mae'r gwesty'n ganolog ac yn gyfforddus.

Branwen Dydy'r gwely yma ddim yn gyfforddus. Mae e'n galed, yn galed iawn.

Tom Branwen, dwyt ti ddim yn gallu newid stafell achos does dim stafell arall yn wag yn y gwesty.

Branwen Dydy'r lle ddim yn llawn yn y gaeaf.

Tom Ydy, a dydyn ni ddim eisiau symud. Mae'r bwyd yn dda ac mae'r gwesty'n lân ac yn ganolog hefyd.

Branwen Yn ganolog, wir. Mae e wrth ochr y cae rygbi ond dydy e ddim yn agos i'r siopau.

Tom Ydy, dydyn nhw ddim yn bell, 'chwaith.

Te yn y gwesty

Mari Beth sydd i de, os gwelwch yn dda?

Gweinyddes Mae bara 'menyn, caws, jam, treiffl, teisen, teisennod bach, bara brith. Yn wir, mae popeth yma.

Mari Dydw i ddim eisiau treiffl a dydy Dr. Jones ddim

eisiau teisen 'chwaith. Mae e'n colli pwysau. Ond mae Branwen eisiau treiffl, teisen a bara brith. Dydy hi ddim yn poeni!

Gweinyddes Da iawn. Ond beth amdanoch chi?

Mari Dim ond te a bara brith i fi a Dr. Jones, ond rydyn ni eisiau swper mawr heno. Dydyn ni ddim yn mynd allan.

Gweinyddes Beth am Dewi a Branwen?

Mari Dydyn nhw ddim yn mynd allan 'chwaith ond rydw i'n siŵr dydych chi ddim yn bwriadu aros i mewn.

Gweinyddes A dweud y gwir, rydw i'n bwriadu mynd i'r sinema gyda ffrind.

Holi am Aberystwyth

Branwen Ydy Aber yn braf?

Dewi Ydy, mae'r cwrs yn y brifysgol yn ddiddorol ac mae'r bywyd cymdeithasol yn ardderchog.

Branwen Oes bar yn y neuadd breswyl?

Dewi Oes, wrth gwrs, a dawns yno weithiau hefyd.

Branwen Ond does dim theatr yno. Mae'r dre'n fach, on'd ydy?

Dewi Mae theatr wych yno –Theatr y Werin– ac mae dramâu Cymraeg a Saesneg yno'n aml.

Branwen Ydy'r theatr ar agor drwy'r flwyddyn?

Dewi Ydy, wrth reswm. Mae drama gan Saunders Lewis yno ar hyn o bryd.

Branwen Bendigedig! Rydw i eisiau dod i Aber cyn bo hir. Ydy hi'n bosib?

Dewi Wrth gwrs. Mae popeth yn bosib, on'd ydy?

Branwen Gaf i aros yn y neuadd?

Dewi Na chei, mae hi'n llawn ar hyn o bryd.

Branwen Dyna drueni!



Neuadd y Ddinas, Caerdydd

Gwers tri (3)

3

Y drydedd wers
Cwrdd â phobl



Rhan un
Mari

Mae hi'n ddydd Gŵyl Dewi heddiw.
Rydw i wedi prynu ffrog newydd.
Mae Branwen a minnau wedi cerdded o siop i siop
drwy'r prynhawn yn edrych ar y dillad.
Rydyn ni wedi blino 'nawr ond rydyn ni wedi
gweld dillad hyfryd yn siopau Caerdydd.
Mae dwy stryd fawr yn llawn o siopau yma, sef,
Heol y Frenhines a Heol Fair.
Mae Dewi a Tom wedi mynd am dro i Barc y Castell.
Maen nhw wedi bod yn siarad am Aberystwyth a
rygbi drwy'r bore fel dau fachgen ysgol.
Dydyn nhw ddim wedi dod 'nôl eto.
Rydw i'n siŵr bod Tom wedi cwrdd â rhywun –
hen ffrind coleg, efallai.
Rydyn ni i gyd wedi derbyn gwahoddiad i ginio.
Mae Tom wedi siarad ar y ffôn â ffrind yn yr
ysbyty o'r enw Jac Dafis.
Llawfeddyg ydy e a fe ydy llywydd Y
Cymmrodorion yng Nghaerdydd.
Mae e wedi estyn gwahoddiad inni fynd i'r cinio
Gŵyl Dewi yn y ddinas heno ac rydyn ni i gyd yn
bwriadu mynd.

Gwers 3 Cwrdd â phobl

Rhan dau
Cwrdd â ffrindiau

Tom Sut wyt ti, Jac, ers llawer dydd?
Jac Da iawn, diolch. Dyma Anwen, fy ngwraig.
Dwyt ti ddim wedi cwrdd â hi o'r blaen.
Tom Nac ydw. Mae'n dda gen i gwrdd â chi, Anwen.
Jac Ble mae Mari?
Tom Dyna hi'n siarad, fel arfer. Mae hi wedi bod yn
siarad fel pwll y môr drwy'r nos.



Gwneud oed

Rhys Mae hi'n boeth yn y stafell yma.
Dere maes i'r awyr iach.
Branwen O'r gorau.
Rhys Mae hi'n well yma.
Branwen Ydy, wir.
Rhys Wyt ti'n gallu dod maes gyda fi nos yfory?
Branwen I ble?

Rhys Rydyn ni'n gallu mynd i'r sinema neu fynd am dro yn y car.

Branwen O'r gorau. Pryd?

Rhys Ar ôl te. Tua saith o'r gloch, efallai.

Yn y cinio

Jac Ydych chi wedi cael tatws, Mari?

Mari Nac ydw, ond dydw i ddim eisiau llawer.

Jac Dyma nhw . . . a'r moron. Mae pys a ffa yma hefyd. Peidiwch â bwyta gormod, da chi!

Mari Mae'r panas yn hyfryd, on'd ydyn nhw? Dydyn ni ddim yn gweld panas yn Chubut. Gaf i ychydig?


Jac Cewch, wrth gwrs. Ydych chi'n hoffi'r cig?

Mari Ydw, mae'n fendigedig.

4

Y bedwaredd wers

O gwmpas y brifddinas



Rhan un

Dewi

Dinas hyfryd ydy Caerdydd.

Rydw i wedi bod yma lawer gwaith o'r blaen. Mae bechgyn y coleg yn dod yma adeg gemau rhyngwladol ac rydyn ni'n cael amser ardderchog. Dyna adar ydyn nhw!

Yn y nos ar ôl gêm fawr mae'r tafarnau dan eu sang a phawb yn canu os ydy Cymru wedi ennill.

Rydw i a 'nhad wedi bod yn cerdded o gwmpas y ddinas y bore yma yn edrych ar yr adeiladau yn y ganolfan ddinesig.

Mae 'mam a Branwen wedi bod yn siopa fel arfer. Y prynhawn yma rydyn ni i gyd yn bwriadu mynd i'r Amgueddfa Genedlaethol.

Rydw i wedi clywed pobl yn canmol y darluniau yno, yn arbennig "Y Ladi Las" gan Renoir.

Heno, rydyn ni wedi trefnu mynd i dafarn.

O leiaf, rydw i a 'nhad yn mynd i dafarn.

Heb y merched, gobeithio!

Ond dydych chi byth yn gwybod!

Rhan dau
Yn yr amgueddfa

- Gofalwr* Ydych chi wedi gweld "Ladi Las" Renoir eto?
Mari Nac ydyn, ddim eto.
Branwen Ble mae e'n union?
Gofalwr Ewch i fyny'r grisiau. Trowch i'r dde ac rydych chi'n gallu gweld yr oriel yn syth o'ch blaen.
Branwen Diolch yn fawr.
Gofalwr Ydy'r dynion yna gyda chi?
Mari Ydyn, maen nhw gyda ni ond maen nhw wedi penderfynu mynd i weld y pwll glo lawr llawr yn gyntaf.
Branwen Ydy e'n ddi-ddorol?
Gofalwr Ydy, ond ewch yno wedyn.
Branwen O'r gorau . . . a diolch. 'Nawr troi i'r chwith yma. Ydw i'n iawn, 'mam?
Mari Nac wyt . . . i'r dde yma. Ydyn ni'n iawn 'nawr?
Branwen Ydyn. Dyna'r oriel a dyna'r "Ladi Las" yn syth o'n blaen.

Mewn siop lyfrau

- Dewi* Esgusodwch fi. Oes gennych chi gopi o nofel Islwyn Ffowc Elis "Cysgod y Cryman"?
Siopwraig Nac oes, mae'n ddrwg gen i. Does dim un ar ôl ond mae copi o "Ffenestri Tua'r Gwyll" ar y silff acw.
Dewi Ydy hi'n nofel dda?
Siopwraig Ydy, os ydych chi'n hoffi nofelau seicolegol. Ond ydych chi wedi darllen y nofel yma?
Dewi "Un Nos Ola Leuad"? Nac ydw. Pwy ydy'r awdur?
Siopwraig Caradog Prichard. Newyddiadurwr ydy e yn Llundain.
Dewi Mae copi gan 'nhad gartref rydw i'n credu. Ond gaf i'r nofel glawr papur yma gan T. Llew Jones, a'r "Cymro" hefyd, os gwelwch yn dda?



- Siopwraig* Cewch â chroeso.
Dewi Faint ydyn nhw?
Siopwraig Chwe deg ceiniog, os gwelwch yn dda. Diolch. A dyma'r newid.


Yn y tafarn

- Tom* Wyt ti'n hoffi'r cwrw yma?
Dewi Ydw, mae e'n ardderchog. Does dim cwrw da yn Chubut o gwbl, oes e?
Tom Nac oes, ond faint y peint ydy hwn?
Dewi Dau ddeg wyth ceiniog rydw i'n credu.
Tom Mae'r pris wedi codi.
Dewi Mae pris popeth yn codi yma. Ydyn nhw'n cwyno yn Ariannin hefyd?
Tom Ydyn, wrth reswm. Ond gwranda, Dewi. Mae bron pobun yn y bar yn siarad Cymraeg.
Dewi Ydyn, maen nhw wedi dod yma o'r Aelwyd. Mae llawer yn dysgu Cymraeg yno ac maen nhw'n dod i'r tafarn yma ar ôl y wers i ymarfer siarad.

Gwers pump (5)

5

Y bumed wers
Ymweld â Sain Ffagan



Rhan un
Branwen

Y prynhawn yma fe fyddaf i'n mynd i Amgueddfa Werin Sain Ffagan gyda Dewi.

Mae e wedi mynd i'r dref y bore yma ond fe fydd e'n dod adref amser cinio.

Dydy 'mam a 'nhad ddim yn dod gyda ni heddiw. Fe fyddan nhw'n ymweld â hen ffrindiau yn Llandaf.

Does dim car gynnon ni ac felly fe fyddwn ni'n mynd ar y bws ar ôl cinio.

Mae Dewi wedi bod i'r Amgueddfa o'r blaen. Beth sydd yno?

Wel, hen dai a ffermdai, ffatri wlân, crefftwy'r yn gweithio yn ogystal â gerddi hyfryd.

Mae Dewi eisiau gweld yr oriel amaethyddol newydd ond fe fydd yn well gen i gerdded o gwmpas y parc.

Mae'n dda gen i fod yng Nghymru yn y gwanwyn.

Mae'r glaw ysgafn yn braf a'r caeau'n wyrdd.

Mae'n gas gen i dywydd sych Patagonia.

A dweud y gwir, fe fydd yn ddrwg gen i fynd 'nôl yno yn yr haf.

Rhan dau
Prynu tocyn

Dewi Dau docyn, os gwelwch yn dda.

Gofalwr Dau ddeg ceiniog, syr. Deg ceiniog yr un.

Dewi Dim ond deg ceiniog! Mae'n rhad iawn. Oes gennych chi lawlyfr hefyd?

Gofalwr Oes, un Saesneg ac un Cymraeg. Maen nhw'n un deg pum ceiniog yr un.

Dewi Gaf i un Cymraeg, os gwelwch yn dda?

Gofalwr Dyma'r tocynnau a dyma'r llawlyfr. Mae lluniau o'r Amgueddfa ar werth yma hefyd.

Dewi Dydw i ddim eisiau dim byd arall.

Gofalwr O'r gorau, ond cofiwch alw yn y siop yn yr oriel newydd.

I'r felin wlân



Branwen Esgusodwch fi, ble mae'r felin wlân?

Gofalwr Rydych chi wedi colli'r ffordd, ydych chi?

Branwen Ydyn.

- Gofalwr** Trowch i'r dde yma. Cerddwch heibio i'r oriel newydd a dilynwch y llwybr at y twnnel.
- Branwen** At dwnnel?
- Gofalwr** Ie. Ewch drwy'r twnnel, ac wedyn, dilynwch y llwybr ar y chwith. Peidiwch â mynd i'r dde, cofiwch 'nawr.
- Branwen** Ydych chi'n gallu gweld y ffatri wlân ar ôl dod allan o'r twnnel?
- Gofalwr** Nac ydych. Gyferbyn â chi mae'r plasty ac yn y pant fe fyddwch chi'n gallu gweld llynnoedd. Ond mae'r llwybr yn mynd ymlaen drwy fwllch mewn wal ac yna fe fyddwch chi'n gallu gweld y ffatri.
- Branwen** Ydy hi'n fawr?
- Gofalwr** Nac ydy. Adeilad gwyn isel ydy e.

Sôn am y gorffennol

- Branwen** Rydw i'n hoffi'r lle yma, Dewi.
- Dewi** Mae'n braf iawn, yn enwedig yr efail, y capel a'r tanerdy. Ond wyt ti wedi blino, on'd wyt ti?
- Branwen** Nac ydw, wrth gwrs. On'd oedd y plasty'n ddiddorol? Pwy oedd biau'r lle?
- Dewi** Iarll Plymouth, rydw i'n credu. Ond mae e wedi marw 'nawr a ni biau'r lle.
- Branwen** Ni!
- Dewi** Ie. Ti a fi. Ni'r Cymry biau'r lle i gyd.
- Branwen** Ha! Ha! Ond fe fyddwn i'n hoffi perchen y bwthyn bach yna – Llainfadyn. Wyt ti'n cofio?
- Dewi** Wrth gwrs. Roedd e'n sefyll ger Caernarfon cyn dod yma. Mae'n fwthyn bach clyd yn y gaeaf rydw i'n siŵr ond fyddwn i ddim yn hoffi cysgu yn y groglofft yna.
- Branwen** Rwyd ti'n mynd yn rhy hen i ddringo'r ysgol i'r gwely, siŵr o fod.

Gwers chwech (6)

6

Y chweched wers
Y gêm rygbi



Rhan un
Tom Jones

Mae hi'n ddydd Sadwrn a heddiw mae Cymru'n chwarae rygbi yn erbyn Lloegr ar Y Maes Cenedlaethol.

Dyma gêm fawr y flwyddyn ond does dim tocyn gen i.

Does dim tocyn gan Dewi 'chwaith a dydyn ni ddim wedi gweld un ar werth eto.

Mae pobun yn dweud "Mae'n ddrwg gen i ond . . .".

Fe fydd y ddinas dan ei sang y bore yma ac fe fydd hwyl fawr yn y strydoedd heno, yn enwedig os bydd Cymru'n ennill.

Fe fyddan nhw'n siŵr o guro'r Saeson heddiw achos mae tîm cryf iawn gan Gymru.

Dyna Williams y cefnwr, Ifans y maswr a Jones yr asgellwr. Dyna chwaraewyr!

A does dim blaenwyr tebyg i Morris, John a Lewis yn y byd.

Mae rhaid imi gael tocyn.

Ond ble? Dyna'r cwestiwn.

Yn y Clwb Rygbi, efallai. Mae hi'n werth rhoi cynnig arni, beth bynnag.

Rhan dau
Chwilio am docyn

- Dyn* O Batagonia rydych chi?
Tom Ie.
Dyn Ac rydych chi'n chwilio am docyn i'r gêm, ydych chi?
Tom Ydw, ers dyddiau. Oes un ar werth gennych chi?
Dyn Oes, rydych chi'n lwcus. Mae un gen i. Mae fy mrawd yn dost ac, yn anffodus, fydd e ddim yn gallu dod i'r gêm.
Tom Mae e'n anlwcus ond rydw i'n lwcus iawn.
Dyn Ydych, wir, achos tocyn stand ydy e.
Tom Tocyn stand ar Y Maes Cenedlaethol a Chymru'n chwarae yn erbyn Lloegr. Dyna lwc!
 Ond faint ydy e?
Dyn Pedair punt, os gwelwch yn dda.
Tom Dyma bum punt. Prynwch beint neu ddau cyn mynd i'r gêm. A diolch yn fawr ichi.
Dyn Pleser, a gobeithio y byddwch chi'n gweld Cymru'n ennill.



Sgwrs gyda Dewi

- Dewi* Fe fyddwch chi'n eistedd gyda'r crachach yn y stand ond fe fyddaf i'n sefyll gyda'r werin.
Tom Paid â chwyno. Rydyn ni wedi bod yn lwcus, yn lwcus iawn. Ac rwy'ti'n ddigon ifanc i sefyll.
Dewi Fe fyddwn ni'n siŵr o ennill y prynhawn yma. Dydy Lloegr ddim wedi ennill yng Nghaerdydd ers blynnyddoedd.
Tom Ond mae ganddyn nhw dîm cryf heddiw, yn ôl pob hanes.
Dewi Oes, ond mae gynnwng ni well tîm. Fyddan nhw byth yn ennill.
Tom Gan bwyll, Dewi. Fe fydd rhaid inni aros i weld.

Ar ôl y gêm

- Dewi* Dau ddeg pum pwynt i bedwar. Dyna sgôr!
Tom Fe fydd rhaid inni chwarae'r ail dîm yn erbyn Lloegr y flwyddyn nesaf!
Dewi Bydd, ond roedd hi'n gêm arbennig. Roedd canolwyr Cymru'n wych a'r blaenwyr yn rhy gryf i'r Saeson.
Tom Ond roedd gormod o gicio, on'd oedd?
Dewi Nac oedd. Cicio tactegol oedd e yn yr hanner cyntaf ac roedd llawer o basio wedyn.
Tom Does dim digon o chwaraewyr da gan Loegr ar hyn o bryd. Fe fydd rhaid iddyn nhw feithrin y gêm yn yr ysgolion.
Dewi Mae un peth yn sicr. Maen nhw eisiau rhagor o hyfforddiant cyn chwarae yn erbyn Iwerddon a'r Alban.



Rhan un
Branwen

Heno rydw i'n mynd maes gydag Alun. Yn ôl pob tebyg, fe fydd e eisiau mynd i'r sinema ond mae'n well gen i fynd i'r theatr. Ac wedi'r cyfan mae drama Gymraeg yn Y Sherman yr wythnos yma. Fydd Alun ddim yn hapus achos mae'n gas ganddo fe ddramâu. Dydyn nhw ddim yn cynnal dramâu Cymraeg yng Nghaerdydd bob wythnos ond mae Cwmni Theatr Cymru'n ymweld â'r brifddinas yn gyson. Tua hanner awr wedi chwech fe fydd Alun yn galw amdanaf i yn y gwesty. Fodd bynnag, fyddwn ni ddim yn mynd yn syth i'r theatr achos dydy'r ddrama ddim yn dechrau tan hanner awr wedi saith. Fe fyddwn ni'n gallu cwrdd â ffrindiau Alun mewn tafarn ger y theatr am dri chwarter awr, ond fyddaf i ddim yn yfed llawer heno. Fydd y ddrama ddim drosodd tan chwarter wedi deg. Ond does dim gwahaniaeth am hynny achos mae car gan Alun.

Rhan dau
Yn yr egwyl

Branwen

O, Alun, mae'r ddrama'n wych, y cynhyrchu'n ardderchog a'r actio'n fendigedig. Pwy sy'n cymryd rhan y ferch?

Alun Greta Morgan. On'd ydy hi'n dda?

Branwen

Ydy, ac rydw i'n hoffi Owain Glyn, y saer, hefyd.

Alun

On'd ydy'r set yn anarferol, gyda'r hen saer doliau ar y llwyfan yng nghanol doliau o bob lliw a llun?

Branwen

Wyt ti'n meddwl ei fod e'n wallgof?

Alun

Wn i ddim, ond mae'n rhyfedd ei fod e'n siarad â'r Giaffar yna ar y ffôn drwy'r amser.

Branwen

A gwifren y ffôn wedi torri!

Alun

Rhaid imi ddweud ei bod hi'n gas gen i glywed y bachgen a'r ferch yn siarad yn angharedig amdano.

Branwen

Rwyt ti'n iawn. Efallai ei fod e'n od braidd ond mae llawer o ddaioni yn yr hen saer, on'd oes?

Alun

Dyna'r gloch yn canu, Branwen. Mae rhaid inni fynd 'nôl.



Ar ôl y ddrama

Branwen Ar ôl heno rydw i wedi penderfynu'n bendant fy mod i eisiau bod yn actores – actores broffesiynol Gymraeg fel Greta Morgan.

Alun Wyt ti o ddirif, Branwen, achos does dim llawer o waith i actorion, heb sôn am actorion Cymraeg?

Branwen Fe fyddaf i'n gallu ymuno â Theatr yr Ymylon neu Gwmni Theatr Cymru yn ogystal â gweithio ar y teledu a'r radio.

Alun Ond fyddi di ddim yn gallu ennill bywoliaeth.

Branwen Mae digon o dalent actio gen i, yn ôl fy athrawes.

Alun Wn i ddim am hynny, ond mae digon o ffydd a hyder gennyti, beth bynnag.

Amser i fynd adref

Branwen Mae'n well inni fynd 'nawr. Mae rhaid inni fod gartref, neu, o leiaf yn y gwesty erbyn un ar ddeg o'r gloch.

Alun Ond, Branwen, chwarter i un ar ddeg ydy hi ac mae car cyflym gen i.

Branwen Mae rhaid imi fynd ar unwaith, Alun, a phaid â dadlau. Fydd 'nhad ddim yn gallu deall ble rydw i.

Alun O'r gorau. Os oes rhaid iti fynd adref mae'n well inni symud, sbo. Ond dydw i ddim yn hoffi merched sy'n rhedeg adre'n gynnar.

Branwen Dydy un ar ddeg o'r gloch ddim yn gynnar o gwbl. A does dim rhaid iti ddod maes gyda fi eto, o ran hynny, Alun Jenkins.

Gwers wyth (8)

8

Yr wythfed wers
**Mynd adref i
Gwmllynfi**



**Rhan un
Tom Jones**

Yfory fe fyddaf i'n mynd adref.

Mae Caerdydd yn braf ond Cwmllynfi ydy fy nghartref.

Bu 'mam a 'nhad farw dros bum mlynedd yn ôl, gwaetha'r modd, ond fe fydd croeso ar aelwyd Modryb Siân, fel arfer.

Fyddech chi ddim yn meddwl bod y pentre'n brydferth.

Does dim llawer yno, dim ond capel, tafarn, ychydig o dai, pwll glo a chae rygbi.

Ond y gymdeithas ac nid y lle sy'n bwysig. Y bobl sy'n bwysig ac mae pobl Cwmllynfi'n garedig ac yn dwymgalon.

Dydy'r pwll glo ddim yn gweithio 'nawr ac mae fy nghyfeillion ar wasgar ar draws y byd erbyn hyn – un yn Awstralia, un arall yn Ffrainc a nifer yn Yr Unol Daleithiau a Lloegr.

Fi ydy'r unig un yn Ariannin, am wn i, ond fe fyddaf i'n gweld un neu ddau o hen ffrindiau, gobeithio.

Fe fydd Branwen yn gweld ei modryb am y tro

cyntaf ers pum mlynedd ond rydyn ni'n siarad
am dani'n aml.

Mae Dewi'n lwcus achos fe fydd e'n gweld ei fodryb
yn gyson.

Rhan dau

Sgwrsio am y pentref

Tom Dydy Cwmllynfi ddim yn bell. Edrycha ar y map
yma. Rhaid mynd o Gaerdydd i Ben-y-bont ar Ogwr.
Yna, ymlaen i Gastell Nedd, dros y mynydd i
Bontcynlais. Yna, troi i'r chwith yno wrth y ffatri
laeth. A dyna ni chwpa yng Nghwmllynfi. Wyt ti
wedi gweld y llun yma o'r pentref?

Dewi Nac ydw. Ble mae tŷ Modryb Siân yn y llun?

Tom Mae ei thŷ hi yno ar y chwith wrth y garej.

Dewi Garej Dai Jones?

Tom Nage. Fe oedd biau'r garej ond nid fe biau hi 'nawr.
Wrth gwrs, mae e'n dal i fyw yn y pentref o hyd.
Dyna ei dŷ e gyferbyn â'r capel ac mae ei gar e o
flaen y tŷ, fel mae'n digwydd. Wyt ti'n gweld y
bwthyn bach drws nesaf i'r siop?

Dewi Ydw.

Tom Roedd teulu dy dadcu'n byw yno unwaith ac fe
ges i fy ngeni yno hefyd.

Dewi Amser maith yn ôl, siŵr o fod.

Llogi car

Dewi Mae 'nhad eisiau llogi car am wythnos. Ydy hi'n
bosib?

Dyn garej Ydy, mae'r un melyn yma a'r un glas yna ar gael.

Dewi Faint ydyn nhw?

Dyn garej Pedwar deg punt ydy'r un melyn yma a phedwar
deg pum punt ydy'r un glas yna. Ond pwy sy'n
bwriadu gyrru?



Dewi Fi. Dyma fy nhrwydded i. Mae 'nhad yn byw ym
Mhatagonia a dydy ei drwydded e ddim ganddo fe,
gwaetha'r modd.

Dyn garej Pa gar ydych chi eisiau?

Dewi Yr un glas yna, os gwelwch yn dda.

Dyn garej Dyma ei allwedd e. Torrwch eich enw ar y
ffurflen yma.

Dewi Dyna ni.

Dyn garej Byddwch yn ofalus iawn. Mae'r ffyrdd yn brysur
heddiw.

Prynu petrol

Dyn garej Beth ydych chi eisiau —petrol tair seren neu bedair?

Dewi Fe fydd tair seren yn iawn i'r car yma. Pedwar
galwyn, os gwelwch yn dda.

Dyn garej Beth am olew a dŵr?

Dewi Mae'r olew'n iawn a'r dŵr yn iawn ond edrychwch
ar y teiars, os gwelwch yn dda.

Dyn garej Yn iawn, yn iawn, mae'r rhai ôl yn iawn ond mae
eisiau ychydig o awyr yn y rhai blaen.



Rhan un
Modryb Siân

Rydw i ar bigau'r drain. Dydw i ddim yn cael ymwelwyr yn aml 'nawr a phan fydd pedwar yn disgyn ar fwthyn bach fel hwn mae problemau'n codi.

Unwaith roeddwn i'n gallu trefnu pethau fel hyn yn iawn.

Doeddwn i ddim yn gofidio amdany'n nhw o gwbl. Ond er fy mod i'n sionc o hyd mae'r cof yn pallu weithiau ac mae ymwelwyr yn faich.

Ond rydw i'n hoff iawn o Tom.

Roedd ei dad e, fy mrawd i, yn fachgen hyfryd, ac mae Tom yr un fath yn union.

Wrth gwrs, rydw i'n hoffi ei wraig e a'i blant hefyd, yn enwedig Dewi.

Rydw i wrth fy modd yn derbyn ei lythyrau o Aberystwyth ac mae e'n galw yma weithiau hefyd.

Dydw i ddim yn 'nabod Branwen gystal.

Un deg tri oed oedd hi pan aethon nhw dros y môr ac rydw i'n siŵr ei bod hi wedi tyfu'n ferch bert.

Ond fe fyddan nhw yma cyn bo hir.

Fe fydd rhaid imi frysio i baratoi eu bwyd nhw.

Rhan dau
Siarad â ffrind

Modryb Siân

Mab fy mrawd i ydy Tom.

Bil

Ie, rydw i'n cofio ei fam a'i dad e'n glir iawn.
Faint o blant oedd ganddyn nhw?

Modryb Siân

Dim ond Tom ac mae e wedi llwyddo'n rhagorol.

Bil

Ym Mhategonia mae e, yntê?

Modryb Siân

Ie. Ond yng Nghymru mae ei galon e o hyd.

Bil

Ydy e'n bwriadu mynd 'nôl yno?

Modryb Siân

Wn i ddim, wir. Rydw i'n gobeithio eu bod nhw o leia'n ystyried aros yng Nghymru.

Bil

Ydych, siŵr o fod. Mae ein teulu ni fel eich teulu chi wedi mynd yn fach iawn, on'd ydy e?



Y trefniadau

Modryb Siân

Bydd, fe fydd Tom a'i deulu'n cyrraedd y prynhawn yma.

Gwen

Fe fydd y tŷ'n llawn, oni fydd?

Modryb Siân

Bydd. Does dim llawer o le yma.

- Gwen* Fyddwch chi'n bwyta yn y gegin?
Modryb Siân Byddwn, wrth gwrs. Ble arall?
Gwen Fe fyddwn i'n defnyddio'r parlwr achos mae mwy o le yno.
Modryb Siân Fydd Tom ddim eisiau imi newid dim. Rydw i'n cysgu yn fy stafell arferol. Fe fydd Mari a Branwen yn cysgu yn y stafell wely ffrynt a'r ddau ddyn yn y stafell gefn.
Gwen Fyddwch chi'n cynnau tân yn y parlwr?
Modryb Siân Byddaf, ac fe fyddan nhw'n gallu cael seibiant yno os byddan nhw eisiau.

Cwrdd â Modryb Siân

- Tom* Modryb Siân, dyma ni o'r diwedd. Sut ydych chi? Rydych chi'n edrych yn dda.
Modryb Siân Diolch yn fawr. Rydw i'n teimlo'n lled dda ar hyn o bryd ond rydw i'n mynd yn hen.
Tom Dydych chi ddim yn edrych yn hen, beth bynnag. A dweud y gwir, dydych chi ddim wedi newid o gwbl.
Modryb Siân Wel, peidiwch ag aros wrth y drws. Dewch i mewn a chroeso mawr ichi 'nôl i Gwmllynfi. Mae'n braf eich gweld chi. Ond ble mae'r plant?
Tom Fe fyddan nhw yma toc. Mae Dewi wedi mynd i barcio'r car ac mae Branwen wedi mynd gyda fe.

Gwers deg (10)

10

Y ddegfed wers
Y pentref



**Rhan un
Branwen**

Unwaith roedd ein teulu ni i gyd yn byw yma yng Nghwmllynfi.
Fe gafodd 'nhad ei eni yma ac roedd e'n byw yn y bwthyn drws nesaf i'r siop.
Gweithiwr ffordd oedd fy nhadcu ac roedd ei deulu e wedi byw erioed yn yr ardal.
Fe gafodd Dewi a minnau ein geni yma hefyd.
Ond doedden ni ddim yma'n hir iawn.
Doedden ni ddim yn disgwyl gweld Modryb Siân yn edrych gystal.
A dweud y gwir, dydy hi ddim yn edrych yn hen o gwbl ac mae hi wedi bod yn siarad yn ddiddiwedd drwy'r bore.
Roeddwn i'n bwriadu mynd am dro o gwmpas y pentref y bore yma ond doedd y tywydd ddim yn caniatáu.
Roedd hi'n bwrw glaw'n drwm iawn.
Drwy ffenest y parlwr roeddwn i'n gallu gweld y siop a'r garej a'r eglwys yn y pellter ond doeddwn i ddim yn gallu gweld y capel.
Roedden nhw'n cynnal mart anifeiliaid yma 'slawer

dydd ac mae 'nhad yn cofio pedwar tafarn arall, yn ogystal â'r ddau sydd yma heddiw. Chwech o dafarnau mewn pentref bach, meddyliwch!

Rhan dau

Siopwr y pentref

Siopwr Oeddech chi eisiau moron?
Mari Nac oeddwn, dim ond tatws a phys. Ac roeddwn i eisiau rhywbeth arall hefyd. Beth oedd e 'nawr?
Siopwr Ffa . . . bresych . . . tomatos . . .
Mari Nage. Rydw i'n cofio 'nawr. Roeddwn i eisiau torth o fara brown.
Siopwr Torth fawr neu un fach?
Mari Un fawr ffres, os gwelwch yn dda.
Siopwr Dyna'r cwbl 'nawr?
Mari Ie, diolch yn fawr.


Holi am fws

Branwen Esgusodwch fi, oes bws i'r dref heno?
Dyn Oes, mae un am bum munud wedi chwech, y nesaf am bum munud ar hugain i saith, a'r nesaf wedyn am bum munud wedi saith. Erbyn pryd ydych chi eisiau cyrraedd?
Branwen Rydw i'n mynd i'r Noson Lawen yn Neuadd yr Eglwys. Mae hi'n dechrau am hanner awr wedi saith.
Dyn Fydd bws pum munud wedi saith ddim yn cyrraedd mewn pryd. Felly, fe fydd yn well ichi adael y sgwâr am bum munud ar hugain i saith.
Branwen Ac am faint o'r gloch fydd y bws olaf yn gadael y dref?
Dyn Am hanner awr wedi deg. Fe fydd yn cyrraedd Cwmllynfi am ddeng munud wedi un ar ddeg.
Branwen Llauer o ddiolch ichi.

Yn y Noson Lawen



Bachgen Wyt ti wedi mwynhau'r hanner cyntaf?
Branwen O, ydw! Roedd Dafydd Elwyn yn wych. Ond beth oedd enw'r grŵp yna?
Bachgen Hirwallt?
Branwen Nage, y merched eraill yna mewn ffrogiau lliw hufen.
Bachgen O, Y Doliau! On'd oedden nhw'n dda?
Branwen Oedden, roedden nhw'n broffesiynol iawn ond doedd y digrifwr ddim yn ddoniol o gwbl.
Bachgen Rydw i'n cytuno. Roedd ei straeon mor hen ag Adda. Ond fe fyddi di'n hoffi'r canu penillion yn yr ail hanner. Mae parti penigamp o Gaerdydd yn canu.
Branwen Mae'n well inni frysio. Mae'r cyflwynydd ar y llwyfan a dyma'r delynores yn dod.



Rhan un

Mari

Pan oeddwn i'n blentyn doeddwn i ddim yn arfer hoffi dydd Sul.

Doedden ni ddim yn cael chwarae yn y stryd o gwbl — dim ond mynd i'r capel a darllen ac yn y blaen.

Doedd 'nhad ddim yn gapelwr. Eglwyswr oedd e ond roedd e'n hoffi ei beint hefyd.

Er ein bod ni'n eithaf tlawd doedden ni byth yn brin o fwyd a doedd 'mam byth yn gwrthod helpu rhywun mewn angen.

Roedd fy rhieni wedi mynd i fyw i'r Rhondda ar un adeg ond doedden nhw ddim yn hoffi'r cymoedd.

Ond sôn am y Sul roeddwn i.

Doedd 'mam ddim yn mynd i wasanaeth y bore fel arfer achos roedd rhaid iddi hi baratoi cinio.

Am hanner awr wedi deg roeddwn i yno fel y cloc gyda 'nhad, ac wedyn yn yr Ysgol Sul am ddau o'r gloch.

Am chwech o'r gloch aen ni i gyd i wasanaeth yr hwyr.

Doeddwn i ddim yn hoff o'r gwasanaeth ei hun ond roedd hi'n ddifyr wedi'r oedfa am fod pawb yn dod

i'n tŷ ni i ganu emynau ac i sgwrsio am hyn a'r llall yn y parlwr. Dyna hwyl!

'Nawr does dim llawer yn y capel yn y bore a llai byth yn y nos. Fel popeth arall mae'r capel yn newid.

Rhan dau Holi am yr oedfa

Siân Oedd llawer yn yr oedfa y bore yma, Tom?

Tom Nac oedd, dim ond rhyw ddwsin, fwy neu lai. Mae pethau'n newid yng Nghwmllynfi. Pan oeddwn i'n grwt roedd y lle'n llawn heb un sedd wag.

Siân Ond doedd dim byd arall yn y pentref y pryd hynny.

Tom Doedden nhw ddim yn gallu neidio i mewn i gar a mynd i'r dref fel pobl ifanc heddiw, oedden nhw?

Siân Eithaf gwir. Doedd dim sinema, dim teledu, dim byd ond y capel. Gyda llaw, oedd y bregeth yn dda?

Tom Oedd, yn eithriadol, mewn gwirionedd. Dyn ifanc, addawol oedd y pregethwr hefyd, myfyriwr o Goleg Bala-Bangor, rydw i'n credu.

Siân A beth am y canu?

Tom Doedd y canu ddim cystal ond, chwarae teg, doedd dim llawer yno i ganu'r emynau. Ond roeddwn i'n mwynhau eu canu nhw.

Maes am dro

Branwen Roeddwn i'n gallu gweld dy fod ti eisiau dod maes.

Dewi Oeddwn, a doeddet ti ddim wrth dy fodd yn eistedd o flaen y teledu, 'chwaith.

Branwen Nac oeddwn. On'd ydy hi'n oer yma ar y bryn?

Dewi Fe fyddet ti'n dwym yn y parlwr ond fe fydd chwant bwyd arnat ti ar ôl cerdded.

Branwen Bydd. Ond beth ydy'r aderyn yna'n hofran dros y



cae acw, Dewi? Rwyt ti'n ei weld e, on'd wyt ti?

Dewi Ydw. Dyna lwc! Barcut ydy e, aderyn prin iawn.

Ac mae e'n gwyllo oen yn y cae.

Branwen Druan ohono fe!

Gwahoddiad

Dyn Pobl ddieithr ydych chi, yntê? Roeddwn yn gallu eich gweld chi'n dringo'r bryn tu ôl i'r tŷ yma ac rydw i'n siŵr eich bod chi'n oer ofnadwy.

Dewi Ydyn, ond roedd hi'n iachus yno.


Dyn Fyddech chi'n licio cwpanaid o de twym?

Dewi Bydden, bydden wir. Rydych chi'n hynod o garedig.

Dyn Peidiwch â sôn. Dewch i mewn â chroeso.

12

Y ddeuddegfed wers
Ar lan y môr



Rhan un *Siân*

Fyddwn i ddim am fyw ar lan y môr achos rydw i'n rhy hoff o Gwmllynfi.

Fodd bynnag, rydw i wrth fy modd yn mynd i Dretywyn.

Fe fyddech chi wrth eich bodd yno hefyd.

Mae yno fae eang a thraeth o dywod sy'n felyn fel aur a rhodfa lydan ar lan y môr.

Does dim ffair yno fel yn Y Barri a Phorthcawl, diolch byth.

Fe fyddai hen ffair swllyd yn difetha'r lle'n llwyr.

Fe fyddwn ni'n mynd toc ar ôl cinio ac efallai y bydd cyfle inni edrych o gwmpas y dref cyn mynd i lawr i'r traeth.

Dydy hi ddim yn dref fawr iawn ond fe fydd Dewi a Branwen wrth eu bodd yn y farchnad awyr-agored.

Ar ôl cael cip ar y dref rydyn ni'n bwriadu cael picnic naill ai ar y traeth neu ar ben y clogwyn uwchben y môr.

O ben y clogwyn fe fyddwn ni'n gallu gweld Y Penrhyn Du ac Ynys Carfan ar y gorwel – os ydy hi'n glir.

Fe fyddai hi'n ddymunol iawn petai Tom a'r teulu'n gallu gweld Tretywyn ar ddiwrnod teg o wanwyn. Ond mae rhaid imi baratoi cinio 'nawr.

Rhan dau
Cael picnic

- Branwen* Estynna'r halen i 'mam, wnei di, Dewi?
Siân Ac estynnwch doc o fara 'menyn yr un pryd, Dewi, os gwelwch yn dda. Mae'r cig yma'n dyner iawn.
- Branwen* Gymerwch chi domato a wy gyda fe?
Siân Diolch. Dydw i ddim wedi mwynhau pryd mor flasus ers tro.
- Branwen* Beth am frechdan gaws neu letys?
Siân Ddim 'nawr, ond gaf i ddarn o deisen lap? Rydw i'n ei hoffi hi'n fawr.
- Branwen* A chwpanaid o de i orffen?
Siân Ar bob cyfrif. Fe fyddai cwpanaid o de'n dderbyniol iawn, oni fyddai hi?


Sôn am fechgyn

- Branwen* Fyddet ti ddim yn mynd maes gyda fe, fyddet ti?
Nia Na fyddwn, mae e'n rhy fyr o lawer i fi. Ond dydw i ddim am dy gynghori di, cofia.
- Branwen* Ond mae e'n olygus a dydw i ddim yn dal iawn, ydw i?
Nia Ond dim ond y prynhawn yma ar y traeth rwyd ti wedi cwrdd â fe.
- Branwen* Roeddwn i wrth fy modd yn sgwrsio gydag e. Roedd e mor ddoniol.
Nia Dyna fe. Rhaid iti benderfynu. Paid â dibynnu ar fy marn i, da ti. A phaid â gofyn i'r merched eraill, 'chwaith.
- Branwen* Fe fydden nhw'n chwerthin am fy mhen, rydw i'n siŵr.

Peryglon nofio



- Tom* Dwyt ti ddim yn bwriadu mentro i'r môr ym mis Ebrill fel hyn, wyt ti?
Dewi Wrth gwrs fy mod i. Rydw i'n gyfarwydd â nofio yn y môr drwy'r flwyddyn yn Aber.
- Tom* Fe fyddai'n well iti nofio llai a gweithio mwy.
Dewi Chwarae teg 'nawr, 'nhad.
Tom Gofala 'nawr, Dewi. Mae'r traeth yma'n eithaf peryglus.
- Dewi* Rydw i'n nofiwr cryf iawn. Fi oedd pencampwr y coleg y llynedd a'r gorau yn y dref hefyd.
Tom Dydw i ddim yn dy amau di ond pencampwr neu beidio, mae'r tonnau'n uchel a llif twyllodrus yn rhedeg rhwng yr ynys a'r tir mawr. Mae gwell nofwy na thi wedi boddi yma.
- Dewi* Peidiwch â gofidio, 'nhad bach.



Ar lan y môr. Cei Newydd (Dyfed)

13

Y drydedd wers ar ddeg
Tom yn dost



Rhan un

Mari

Dydy Tom ddim yn hanner da.

Doedd e ddim yn gallu bwyta ddoe, a'r bore yma roedd e'n llawn annwyd.

Roedd pen tost ganddo fe a phoen yn ei stumog hefyd.

Fe chwydodd e ddwywaith yn ystod y nos a bydd rhaid iddo fe weld meddyg rywbryd heddiw.

Pan fydd meddygon yn dost nhw ydy'r cleifion gwaethaf.

Doedd e ddim eisiau gweld meddyg ar unrhyw gyfrif.

Doedd dim byd yn bod arno fe, meddai fe, er ei fod e â'i ben yn ei blu drwy'r bore.

Ond roedd e'n peswch ac yn tisian yn ddi-baid.

Fe arhosodd e yn y gwely tan chwarter wedi deg ond doedd e ddim eisiau brecwast.

Fe fyddwn i wedi galw'r meddyg i'w weld e yn ystod y nos gan ei fod e mor dost ond doedd e ddim yn fodlon imi wneud hynny o gwbl – roedd e mor ystyfnig â mul.

Fe sylwais am ugain munud i ddeg fod ei wres e'n

uchel ac erbyn un ar ddeg o'r gloch roedd e'n chwys diferu.

Fe edrychais i ar ei dafod. Roedd e'n wyn fel eira. Does dim dwywaith amdani – mae e'n dost.

Dydw i ddim yn hoffi ei weld e fel yna.

Rhan dau
Ymgynghori â'r

meddyg

Meddyg

Sut ydych chi'n teimlo?

Yn ofnadwy. Mae annwyd trwm arnaf i.

Tom

Meddyg

Myn brain i! Mae eich gwres yn uchel iawn – cant a thri i fod yn fanwl. Oes pen tost gennych chi?

Tom

Oes, fel bwced! Mae e bron â holhti.

Meddyg

Dyma bapur ichi. Cymerwch y moddion bedair gwaith y dydd a'r tabledi dair gwaith, ac arhoswch yn y gwely nes ichi deimlo'n well.

Tom

O'r gorau, doctor. Rydw i'n falch imi anfon amdanoch chi.

Meddyg

Popeth yn iawn. 'Nawr, ymwelydd ydych chi â'r ardal, ynte?

Tom

Ie.

Meddyg

A'ch enw?

Tom

Tom Jones.

Meddyg

Mr. Tom Jones.

Tom

Nage, Dr. Tom Jones.

Meddyg

Meddyg ydych chi! Pam ar wyneb y ddaear felly ydych chi'n fy mhoeni i? Dim ond am annwyd! Nefoedd fawr!

Gyda'r fferyllydd

Branwen

Rydw i eisiau asbrin a hancesi papur, a dyma bapur y doctor.

Fferyllydd

Diolch. Pwy ydy Tom Jones?



- Branwen* 'Nhad.
Fferyllydd Dydych chi ddim wedi ei arwyddo fe?
Branwen Nac ydw, does dim eisiau. Mae ein cyfeiriad arno, beth bynnag – cyfeiriad dros dro ydy e.
Fferyllydd O! Chi sy'n aros gyda Mrs. Siân Jones, efe?
Branwen Ie. Modryb 'nhad ydy Mrs. Siân Jones ac rydyn ni'n ymweld â hi am dipyn bach.
Fferyllydd O! Chi sy'n dod o Batagonia, felly?
Branwen Ie.
Fferyllydd Dyna chi. Gobeithio y bydd eich tad yn well yn fuan.
Branwen Gobeithio'n wir. Mae ei wres e'n beryglus o uchel ar hyn o bryd, ond does dim llawer o'i le arno fe ar wahân i hynny.
Fferyllydd Cofiwch ddweud wrtho am gadw'n dwym.

Cyfarwyddiadau

- Siân* Mae rhaid i dy dad gymryd y moddion bedair gwaith y dydd a'r tabledi ddwywaith.
Dewi Dair gwaith, modryb. Edrychwch chi ar y cyfarwyddiadau unwaith eto.
Siân Rwy'ti'n hollol iawn, fel arfer. Fe fyddai'n well iddo gymryd y moddion cyn brecwast, cinio, te a swper, ynghyd â'r tabledi.
Dewi Ond fe all e gymryd y moddion yn unig, amser swper.
Siân Druan ohono! Ond fe ddywedais i wrtho am fod yn ofalus gan fod Cwmllynfi'n lle mor oer yr adeg yma o'r flwyddyn.
Dewi Fe fyddai'n ofnadwy petai'n rhaid iddo aros yn y gwely ar ddiwedd yr wythnos yn lle dod gyda ni i Aberystwyth.
Siân Byddai'n wir. Cofia ysgwyd y botel yn dda cyn rhoi'r moddion iddo fe.
Dewi O'r gorau. Mae e'n casáu moddion ond fe fydd rhaid iddo ei gymryd e.
Siân Mae'n galed arno, druan bach!



Rhan un
Dewi

Ar ôl imi wario cymaint yng Nghaerdydd rydw i'n eithaf prin o arian.

Fe fydd yn well imi ofyn i 'nhad am ragor cyn dychwelyd i Aber.

Mae ar Aled, fy ffrind, bum punt imi.

Fe fenthyciodd e'r arian gen i i brynu esgidiau pêl-droed newydd.

Roedd arno fe ddeg punt imi y tymor diwethaf hefyd ond fe dalodd ei ddyled cyn y Nadolig.

Mae rhai o'r bechgyn yn y neuadd yn 'sgrifennu adref am arian bob wythnos. Dydw i ddim yn eu deall nhw.

Ond, rywsut, rydw i'n gallu ymdopi heb ofyn yn aml.

Beth bynnag, does dim dyled arnaf i.

Dyna Aled a Rhys, fy ffrindiau gorau.

Fyddwn i ddim yn hoffi dweud faint o ddyled sy arnyn nhw.

Maen nhw'n gwastraffu llawer o arian ar yfed ac ysmegu.

Dydw i ddim yn gallu cynilo am fod yr arian yn

rhy fach a phethau'n ddrud.

Mae rhaid imi gyfaddef bod dim llawer wrth gefn am weddill y tymor ond does dim bai arnaf i am hynny 'chwaith.

Rhan dau
Mam yn dod i'r adwy



Mari Rwyd ti'n brin o arian, on'd wyt ti?

Dewi Ydw, mae arnaf i ofn ond dyma'r tro cyntaf i fi ofyn am ddimai goch ers tipyn.

Mari Yr ail dro, Dewi. Fe 'sgrifennaist ti aton ni beth amser yn ôl. Ar beth rwyd ti'n gwario dy holl arian?

Dewi Dydw i ddim yn ysmegu a dydw i ddim yn yfed llawer ond mae rhaid imi brynu ychydig o fwyd bob dydd a mynd i ambell ddawns. Dydw i ddim yn rhy wastraffus ond mae'r arian yn mynd rywsut neu'i gilydd.

Mari Oes dyled arnat ti i rywun?

Dewi Dim ceiniog, ond mae ar ffrind bum punt i fi ers rhai wythnosau.

Mari O'r gorau. Wel, dyma un deg pum punt iti. Ydy e'n ddigon?

Dewi Ydy, yn llawn digon. Diolch yn fawr, 'mam.

Cyngor neu ddau

Tom Rydw i am ddweud un peth arall wrthot ti, Dewi.

Dewi Ie, 'nhad.

Tom Paid byth â mynd i ddyled.

Dewi O'r gorau, 'nhad, ond . . .

Tom Paid ag yfed gormod a phaid byth ag ysmegu. Mae'n ddrwg iti.

Dewi Fyddwn i byth yn ysmegu achos rydw i'n rhy hoff o chwaraeon ac fe fyddai ysmegu'n effeithio ar fy ngwynt i, oni fyddai?

Tom Byddai siŵr. A phaid ag ofni gofyn am arian pan wyt ti'n brin. Cofia 'nawr!

Dewi Rydych chi'n hynod o garedig. Fe fyddaf i'n ofalus o fy nghyfrif banc o hyn allan.

Tom Oes cyfrif cadw gennyt ti?

Dewi Nac oes, dim ond cyfrif trafod.

Tom Felly dydy e ddim yn ennill llog.

Dewi Ddim o gwbl. Efallai y dylwn i ystyried agor cyfrif cadw.

Dewi'n cwyno

Dewi Paid ag yfed! Paid ag ysmegu! Paid! Paid! Paid!

Branwen Ond cofia taw er dy les dy hun mae 'nhad yn dweud paid.

Dewi Fe ddywedais i wrtho fy mod i ddim yn ysmegu.

Branwen Wyt ti erioed wedi ysmegu?


Dewi Dim ond unwaith ac fe chwydais i gymaint nes fy mod i ddim eisiau gweld sigarét byth wedyn.

Branwen Erbyn hyn rwy'ti'n falch o hynny, siŵr o fod.

Dewi Ydw, sbo, ond pan fydd e'n dweud paid, paid, paid, fel tôn gron. Dydw i ddim yn blentyn ysgol.

Branwen Rhag dy gywilydd di, Dewi, yn siarad fel yna am 'nhad! Er ein lles ni mae e'n dweud hynny.

Dewi Eithaf gwir. Ond mae'n anodd credu hynny weithiau.



Rhosili, Gŵyr




Rhan un Tom

Pan oeddwn i'n ifanc fe fyddwn yn edrych ymlaen at fynd i Aber. Es i yno ar fy ngwyliau ryw bum gwaith gyda 'mam a 'nhad. 'Slawer dydd fe fyddai bron pawb o'n hardal ni'n mynd i Aberystwyth ar eu gwyliau. Erbyn hyn mae'n well ganddyn nhw Sbaen a'r Eidal ond Aber oedd hoff le ein teulu ni. Unwaith fe ddringais i Constitution Hill ar fy mhen fy hun. Oddi yno roeddwn i'n gallu gweld y dref o danaf i — y coleg a'r castell ar lan y môr, Y Llyfrgell Genedlaethol ar y bryn a Bae Ceredigion yn ymestyn o fy mlaen i yn las i'r de ac i'r gogledd. Rydw i'n cofio cerdded 'nôl yn ofalus ar hyd llwybr cul a themlo ofn wrth weld y dibyn serth ar y dde. Fe gyrhaeddais i'r gwesty yn fyr fy ngwynt, gan edrych 'nôl tua Consti a themlo'n falch fy mod i wedi llwyddo i'w ddringo fe. Ond fe ddywedodd 'nhad fy mod i'n ffôl yn mentro i'r fath le peryglus ar fy mhen fy hun.

Ddes i ddim yma i'r coleg, gwaetha'r modd, achos does dim ysgol feddygol yn Aber. Ond rydw i'n sobr o falch bod Dewi'n astudio yn "y Coleg ger y lli".

Rhan dau Trafferth gyda'r car



- Dewi* Daro'r car yma! Rydyn ni wedi trefnu mynd i Aber ac mae rhywbeth o'i le arno. Fe edrychais i arno tua deng munud i ddeg ac roedd e'n mynd yn iawn.
- Branwen* Arhosa funud. Gad inni weld 'nawr. Edrychaist ti ar y plygiau, do fe?
- Dewi* Rydw i wedi eu sychu nhw'n ofalus — a chlwr y dosbarthydd hefyd.
- Branwen* A beth am y batri 'te?
- Dewi* Fe newidiodd dyn y garej e cyn imi logi'r car. Mae e'n un newydd sbon.
- Branwen* Brynaist ti betrol ar y ffordd, Dewi?
- Dewi* Wel, naddo, myn brain i! Fe anghofiais i brynu peth yn llwyr!

Branwen Dyna beth sy'n bod, y twpsyn dwl! Does dim diferyn o betrol ynddo fe.

Dewi Mae'n flin gen i, Branwen, yn wir iti.

Branwen Does dim ots. Dyna beth sy'n dod o adael i ddyn wneud popeth ar ei ben ei hun.

Yn Felin-fach

Branwen Pryd agorodd y ganolfan yma?

Rheolwr y Theatr Tua phum mlynedd yn ôl ond ychwanegwyd rhai rhannau ati wedyn.

Branwen Mae'n fendigedig. Oes llawer yn digwydd yma gyda'r nos?

Rheolwr y Theatr Oes, mae rhywbeth bron bob nos. Yr wythnos diwethaf fe gawson ni Gwmni Theatr Cymru'n perfformio "Y Tad a'r Mab" yma ac mae plant ysgol yn dod yma yn ystod y dydd i gael gwersi. Ond alwoch chi yn oriel y cyfarwyddwr?

Branwen Do, roedd y botymau goleuadau y ces i gip arnyn nhw'n edrych yn gymhleth dros ben i fi. Ond fe esboniwyd popeth amdany'n nhw i fi.

Rheolwr y Theatr Fe fyddech chi'n hoffi gweithio yma, oni fyddech?

Branwen Fe fyddwn i wrth fy modd yn actio. Mae'r lle mor agos atoch chi rywsut.

Rheolwr y Theatr Rydw i'n cytuno'n llwyr.

Colli'r ffordd

Branwen Ble dodaist ti'r map?

Dewi Edrycha yn y poced ar y drws. Rydw i ar goll.

Branwen Fe droiaist ti i'r dde yn Felin-fach, yna fe arhosaist ti ar y groesffordd.

Dewi Fe es i i'r chwith fanna a bwrw ymlaen i gyfeiriad Cwm-coch. Wedyn fe stopiais i holi'r ffordd. Rydw i'n cofio'r hen wraig yna'n sefyll ar ei phen ei hun ar ochr yr heol. 'Nawr beth ddywedodd hi?


Branwen Fe ddywedodd hi wrthon ni am fynd yn syth ymlaen a throi i'r dde ar y groesffordd ger y capel.

Dewi Fe arhoson ni wrth y capel, on'd do fe, i ddarllen y map yng ngolau'r lamp.

Branwen Rydw i'n cofio 'nawr. Fe ddodaist ti'r map ar do'r car. Ond blygaist ti e wedyn?

Dewi Naddo, fe anghofiais i bopeth amdano.

Branwen Y penbwl! Beth ddaw ohonon ni?



Aberystwyth



Rhan un
Branwen

Dyma Aberystwyth o'r diwedd!

Er gwaethaf y car fe gyrhaeddod ni'n ddiogel.
Fe aeth 'nhad a 'mam am dro i weld y castell ond
fe ddes i yma i gael golwg ar Y Llyfrgell
Genedlaethol.

Fe gafodd Y Llyfrgell ei hagog ym Mil Naw Un Un
ac mae hi'n sefyll ar Fryn Penglais uwchben y dref.
O'r Llyfrgell rydych chi'n gallu gweld Bae
Ceredigion o'ch blaen, Constitution Hill i'r dde a'r
dref fach gryno'n ymestyn hyd lan y môr.

Ar ôl ymadael â'r ysgol fe ddaeth 'mam yma i
weithio yn yr ysbyty.

Aeth hi ddim i'r coleg fel 'nhad ond yma, serch
hynny, y cwrddod nhw yn ystod y rhyfel.

Dyna pam roedden nhw'n falch pan ddaeth Dewi
yma i'r coleg ddwy flynedd yn ôl.

Yn ôl 'nhad mae'r lle wedi newid.

Fe gafodd y Coleg ei sefydlu mewn gwesty ar lan y
môr ond erbyn hyn mae ei adeiladau newydd yn
gorchuddio Penglais tu ôl i'r Llyfrgell.

Porthladd bach prysur oedd Aber yn yr hen

ddyddiau ond tref brifysgol ydy hi i bob pwrpas
erbyn hyn a chanolfan siopa i bobl y wlad o gwmpas.

Rhan dau
O gwmpas y Brifysgol



Dewi Rydw i'n dal i gael ambell ddarlith yn yr hen
adeilad ar lan y môr ond yma ar Benglais rydw i,
ran fynychaf.

Branwen Dyna'r theatr, efe?

Dewi Ie, Theatr y Werin, theatr newydd sbon gafodd ei
hagog beth amser yn ôl.

Branwen A beth ydy'r adeilad mawr arall yna? Y labordy
gwyddoniaeth newydd?

Dewi Nage. Dyna'r gampfa ac mae pwll nofio dan do yno
hefyd. Est ti i mewn i'r Llyfrgell y bore yma?

Branwen Naddo, doedd dim digon o amser rydw i'n ofni,
ond fe sefais i ar y grisiau o'i blaen. Oddi yno mae
yna olygfa welais i mo'i gwell erioed.

Dewi Aeth 'mam a 'nhad am dro o gwmpas adfeilion y
castell.

Branwen Do. Does dim diddordeb gen i mewn adfeilion.
Dewi Na minnau 'chwaith, ond efallai eu bod nhw wedi bod yn caru yno 'slawer dydd.


Cwrdd â hen ffrindiau

Owain Gruffydd Wel, choeliaf i byth!
(Gogleddwr) Tom a Mari Jones! S' mae?
Tom Da iawn. Mae'n rhyfedd ein bod ni'n cwrdd yma ar y prom.
Owain Gruffydd Ydy, wir. Ym Mhatagonia rydych chi o hyd, yntê?
Tom Ie. Fe aethon ni yno rai blynyddoedd yn ôl ond fe ddaethon ni adref ar ein gwyliau ddiwedd Mis Bach.
Owain Gruffydd Am faint y byddwch chi'n aros 'rwan?
Tom Tan y 'Steddfod, mae'n siŵr. Ond, dywedwch, ble aethoch chi ar ôl ymadael â Chaerdydd.
Owain Gruffydd Fe ddes i yma i ddarlithio yn y Coleg ac yma rydw i byth.
Tom Gwyn eich byd chi. Ydy Rhys a Gwyneth Lewis yn byw yma o hyd?
Owain Gruffydd Nac ydyn. Fe aethon nhw i Gaernarfon pan gafodd Rhys waith ar "Yr Herald". Mae rhaid imi fynd 'rwan ond fe hoffai'r wraig a minnau'n fawr petaech yn galw arnon ni cyn mynd 'nôl.
Tom Diolch. Byddwn yn siŵr o wneud.

Yn y neuadd breswyl

Branwen Hoffais i mo'r cawl yna gawson ni, Dewi. Ydy'r bwyd yn wael bob amser?
Dewi Nac ydy. Mae'r bwyd yn iawn. Ti sy'n gyfarwydd â maldod 'mam.
Branwen Nage, wir. Ond dyma'r cinio'n dod.
Dewi Fe gawson ni borc neithiwr. Beth sydd heno?
Branwen Cig eidion, wrth ei olwg. Neu gig oen.
Dewi Ddaeth mo 'nhad a 'mam wedi'r cyfan.

Branwen Naddo, fe aethon nhw i ginio yn y Bella Vista, os gwelwch fod yn dda!
Dewi Wel, mae'r cig yma'n dyner a blas eithaf ffres ar y llyisiau hefyd. Gest ti bupur a halen?
Branwen Do, diolch, a mwstart hefyd. Gyda llaw, welais i mo Alwen, dy gariad, y bore yma eto.
Dewi Ffrind nid cariad, Branwen.
Branwen Ond ffrind da. Gaf i gwrdd â hi cyn mynd oddi yma, syr?
Dewi Efallai. Fe gawn ni weld.



Castell Caernarfon



Rhan un
Branwen

Aethon ni ddim i'r disgo'n syth ar ôl cinio.
Fe fues i gyda Dewi a'i ffrindiau ym mar y coleg sy
yn y seler dan y neuadd.
Yn wir, fe ddylech chi ei weld e.
Mae lluniau a phosteri ar hyd y muriau a phob math
o sylwadau doniol wedi cael eu hysgrifennu yma ac
acw.
Ond chwarae teg, roedd popeth yn drefnus a welais
i ddim o'i le yno.
Fe gafodd y neuadd ei hagor ym Mil Naw Saith Tri
ac er gwaetha'r holl brotestio ar y pryd mae hi wedi
bod yn llwyddiant ysgubol.
Fe ges i fy synnu wrth glywed cymaint o Gymraeg ar
ôl bod yng nghwmni myfyrwyr Caerdydd.
Fe gwrddais i â llawer o bobl ddiddorol a ches
wahoddiad i fflat y warden – dyn caredig iawn.
Chlywais i erioed y fath ganu hwyliog ag oedd yn y
neuadd gydag emynau, caneuon gwerin a chaneuon
pop yn cael eu canu blith draphlith.
Am tua phum munud ar hugain wedi deg fe ddaeth

y tasci.

Fe neidion ni i gyd i mewn dan chwerthin a chanu
ac fe aethon ni ar ein hunion i'r ddawns yn Neuadd
y Brenin. Dyna drueni fedrwn i ddim aros yma.

Rhan dau
Yn y ddawns

Aled Glywaist ti'r bachgen pryd golau yna'n canu gynnau?
Branwen Do, roedd e'n dda.
Aled Wel, dyna Dewi Elwyn. Wyt ti wedi clywed amdano
o'r blaen?
Branwen Wrth gwrs fy mod i! Mae pawb yn ei 'nabod e. Mae
e wedi bod yn un o arweinwyr Cymdeithas yr Iaith
hefyd, on'd ydy e?
Aled Ydy. Aeth e i'r carchar unwaith.
Branwen Dewi Elwyn gyfansoddodd y gân "Clustiau" hefyd,
os cofiaf i'n iawn, yntê?
Aled Ie, roedd hi'n gân boblogaidd iawn ar un adeg.
Branwen Ond edrycha, mae grŵp Edwart Tomos yn barod i
gychwyn.
Aled Wyt ti eisiau dawnsio?
Branwen Wrth gwrs.
Aled Fe ddylet ti ddawnsio'n dda a thithau'n byw yn Ne
America, oni ddylet?
Branwen Dylwn, sbo, ond Cymraes ydw i o hyd, cofia.
Aled Mae'n well imi ofalu am fy nhraed felly!
Branwen Aled, rwyt ti'n cellwair eto. Ond dere ymlaen.

Sôn am ddillad

Branwen Fe ddylwn i brynu sgert fer newydd.
Eleri (ffrind) Pa liw?
Branwen Un ddu rydw i'n meddwl.
Eleri Fe ddylai dy daro'n iawn gan dy fod o bryd tywyll.
Ond fe ddylet ti gael blows neu siwmpwr y gallet ti
ei gwisgo i'r ddawns.

- Branwen* Dylwn, ond pa liw?
Eleri Fe fyddai coch neu las neu wyrdd yn iawn.
Branwen Bydden, ond fe hoffwn i rywbeth gwahanol.
Eleri Beth am biws?
Branwen I'r dim. Sgert ddu, blows biws a rhuban piws yn fy ngwallt.
Eleri Ardderchog, ond dydw i ddim yn hoffi'r esgidiau yna.
Branwen Pam?
Eleri Mae'r sodlau'n rhy uchel. Dydyn nhw ddim yn dy daro di o gwbl. Fe fyddai pawb yn chwerthin am dy ben.

Dewi mewn cawl



- Tom* Esbonia ble yn union rwyt ti.
Dewi Rydw i'n ffonio o Fferm Glynderi, Rhyd-y-brain – cartref Aled. Fe ddes i yma'n syth ar ôl y ddawns.
Tom Ac mae car Aled wedi torri i lawr ac rwyt ti am i fi

- wneud rhywbeth am ugain munud i un y bore, wyt ti?
Dewi Ydw, 'nhad, mae'n flin gen i.
Tom Ddylet ti ddim bod maes mor hwyr ar dy ben dy hun.
Dewi Fe wn i hynny ond nid arnaf i mae'r bai.
Tom Wel, does dim car gen i. Fe fydd rhaid iti ffonio Aber am dacsu.
Dewi Ond does dim digon o arian gen i.
Tom Paid â gofidio; fe dalaf i fel arfer. Erbyn pryd y byddi di yma?
Dewi Erbyn tua deng munud wedi un gobeithio.



Rhan un

Mari

Doeddwn i ddim wedi sylweddoli bod pethau mor ddrud yng Nghymru erbyn hyn.

Ond, wrth gwrs, dydyn nhw ddim cynddrwg ag yn Ariannin.

Mae'r chwyddiant ariannol yn waeth o lawer yno nag yma.

Buenos Aires, gyda llaw, ydy un o'r lleoedd mwyaf drud yn y byd, yn fy marn i.

Fe sylwais i, fodd bynnag, fod cig yn fwy drud yn y siopau yma a'r safon yn is.

A dyna'r gwesty wedyn. Fydden ni ddim yn gallu aros mewn cystal gwesty a thalu cyn lleied â thri deg pum punt yr wythnos.

Heddiw fu'r tywydd ddim mor wlyb â ddoe.

Doeddwn i ddim eisiau mynd allan gan ei bod hi'n oer.

Dydy Gwesty'r Bae ddim mor boblogaidd â'r Bella Vista dyweder ond mae e'n fwy rhad ac yn fwy cysurus ac mae e'n nes i'r môr.

Roeddwn i mor hapus â'r gog yn eistedd yn y lolfa yn siarad â'r gwesteion eraill.

Mewn llai nag awr roedden ni'n ffrindiau mawr.

Rhan dau

Siân Jones yn teimlo'n oer

Siân

Tybed ydy hi mor oer yn Aber ag ydy hi yma? Dydw i ddim yn credu ei bod hi cynddrwg yno. Maen nhw'n cael llai o eira ar lan y môr, beth bynnag.

Siân

Ond mae'r dref yn fwy agored na Chwmllynfi gan ei bod yn wynebu'r môr. Yn ôl Dewi Aber ydy un o'r lleoedd gwaethaf yng Nghymru yn y gaeaf.

Ifan

Ond mae'n wanwyn 'nawr ac rydyn ni bron ar drothwy'r haf a does unlle cystal ag Aber yn yr haf, medden nhw.

Siân

Yn fy marn i mae Porthcawl yn well.

Ifan

Mae'r naill mor wyntog â'r llall ar adegau, does dim dwywaith am hynny.

Cael cynnig fflat gan ffrind

Elwyn

Ddylech chi ddim aros yn y gwesty am weddill eich gwyliau. Mae fflat fy mrawd yn wag ac mae croeso ichi ei defnyddio.

Tom

Ond rydyn ni'n dri, cofiwch.

Elwyn

Mae digon o le yno – lolfa, stafell fyw, cegin fach a dwy stafell wely. Fe ddylech chi ei gweld hi, dylech wir.

Tom

Rydych chi a'ch brawd yn arbennig o hael. Yn sicr fe fydd yn fwy rhad na'r gwesty. Ond mae Gwesty'r Bae mor gysurus a'r perchnogion mor garedig.

Elwyn

Rydw i'n siŵr bod y Bae ddim yn fwy cysurus na'r fflat.

Tom

Beth mae eich brawd yn ei wneud?

Elwyn

Trafaeliwr ar ran cwmni olew ydy e. Mae e'n ddibriad ac mae e wedi gofalu bod y fflat yn hynod

gysurus. Mae ganddo fe offer o bob math i arbed gwaith – peiriant golchi, peiriant golchi llestri a pheiriant gwneud te yn ymyl y gwely.

Tom Os down ni fe fydd rhaid inni dalu eich brawd am y lle gofalwch.

Elwyn Does dim eisiau o gwbl. Mae e i ffwrdd am wythnos ac rydw i'n gwybod fydd e ddim yn barod i dderbyn tâl. Fe fydd e wrth ei fodd fod rhywun yn ei defnyddio er mwyn cadw'r lle'n gras.

Paratoi cinio



Mari Mae'r stêc dan y radell ac rydw i wedi torri'r tatws yn barod ar gyfer gwneud sglodion.

Branwen Rydw i wedi plicio'r pys er doedd dim llawer ynddyn nhw a glanhau'r shrwmps hefyd.

Mari Gofynnais am y stêcs mwyaf yn y siop. Ond druan ohonoch chi – rydw i'n siŵr ches i mo'r rhai gorau gan eu bod nhw wedi mynd yn llai wrth eu coginio.

Branwen Roiwn i mo'r nwy mor uchel â hynny petawn i chi neu fe fyddan nhw'n llosgi'n ulw.

Mari Dydyn ni ddim yn gyfarwydd â nwy a dydw i ddim yn credu ei fod e cystal â thrydan 'chwaith. Ond mae e'n fwy rhad na thrydan yn ôl rhai.

Branwen Fe fydd 'nhad yn ôl gyda Dewi cyn bo hir. Rhaid inni ofalu bod y bwyd yn barod. Oes cyllyll, ffyrc a llwyau ar y bwrdd?

Mari Oes, ac mae'r platiau a'r cwpanau i gyd wedi cael eu gosod yn barod.

Branwen Mae'r cawl yn twymo'n araf ond rydyn ni wedi anghofio'r pwddin.

Mari Ddim o gwbl. Fe brynais i dunaid o eirin gwlanog y prynhawn yma ac mae hufen yn y cwpwrdd rhew hefyd.

Branwen Fe fydd yn ginio fu erioed ei debyg – yn well na'r Bae efallai!

19



Rhan un
Tom

Wyddoch chi taw dim ond un cyfaill dyddiau ysgol sy gen i ar ôl yng Nghwmllynfi. Wil James ydy ei enw. Trafaeliwr bwyd anifeiliaid ydy e ac mae e'n dal i fyw ar fferm ar gwr y pentref. Heddiw mae ei fab hynaf, Alun, yn priodi ac fe gafodd Mari a minnau wahoddiad i'r briodas. Yn anffodus cyn inni dderbyn y gwahoddiad fe addawodd Mari dreulio'r dydd gyda hen ffrind. Ond rydw i'n bwriadu mynd ar fy mhen fy hun. Yn eglwys y plwyf mae'r briodas gan taw eglwyswraig ydy'r briodferch ond fe glywais i fod y neithior yn neuadd y pentref. Mae'n ffodus taw dydd Sul fydd hi yfory achos fe fyddaf i ar lawr ar ôl y teithio, y dathlu a'r holl loddesta.

Rhan dau
Araith Tom
Gwas priodas

Tom

A 'nawr mae'n bleser gen i gyflwyno hen gyfaill i deulu Alun, sef y Dr. Tom Jones o Batagonia. Mr. a Mrs. James ac Annwyl Gyfeillion. Fel y

dywedodd y gwas priodas rydw i'n hen ffrind i dad y priodfab ac yn hen gyfarwydd â theulu'r briodferch hefyd. Mae'n fraint ac anrhydedd imi fod yma heddiw i gyfranogi o'ch llawenydd ar ddiwrnod mor hapus yn eich hanes fel teuluoedd. Os bydd Alun mor ffodus â'i dad yn ei ddewis o wraig fydd ddim rhaid iddo fe ofni.

Lleisiau

Tom

Clywch! Clywch!

Ac os bydd ei wraig, Ann, mor lwcus yn ei dewis o wr ag roedd Mrs. James fydd ddim llawer o'i le.

Mr. James

Tom

Rwyt ti'n seboni 'nawr, Tom!

Nac ydw, wir. Dim ond un cyngor sy gen i ichi. Cyn imi briodi dywedodd ffrind wrtho i – "Ar ôl iti briodi fe fydd rhaid iti rannu popeth, hanner a hanner." Ac fel yna mae hi wedi bod, hanner a hanner – hanner ceiniog i mi a hanner canpunt i'r wraig. (*Chwerthin*) Gaf i, wrth derfynu, longyfarch y ddwy forwyn ar edrych mor brydferth a dymuno priodas dda a hir oes i Alun ac Ann. Mae'n bleser gen i 'nawr gynnig llwncdestun i'r priodfab a'r briodferch.



Sgwrs am y Wladfa

- Mrs. James* Ers iti fod ym Mhatagonia rwy'ti wedi tewhau, Tom.
Tom Ydw, gwaetha'r modd, ond fe gollaf i bwysau ar ôl mynd 'nôl a dechrau gweithio eto, fe gei di weld.
- Mrs. James* Hyd pryd wyt ti'n aros 'te?
Tom Tan fis Awst, mae'n debyg, er mwyn inni fynd i'r 'Steddfod.
- Mrs. James* Erbyn pryd mae rhaid iti fod 'nôl yn yr ysbyty?
Tom Erbyn y drydedd wythnos yn Awst, os cofiaf i'n iawn.
- Mrs. James* Sut rai ydy'r bobl – nid y Cymry – ond y gweddill?
Tom Erbyn hyn mae rhai yno o bedwar ban y byd ond mae pobl yr un fath ymhobman, am wn i.

Wedi'r neithior

- Galwr* Cymerwch bartner a sefwch mewn cylch, bechgyn a merched bob yn ail.
Tom Fues i erioed mewn dawns o'r fath yma.
Merch 'Sdim gwahaniaeth. Gwrandewch yn ofalus ar y cyfarwyddiadau.
- Galwr* Fechgyn, cymerwch bedwar cam i'r canol ataf i. Trowch. Wrth ichi droi curwch eich dwylo a chymryd pedwar cam 'nôl.
Tom Mae hynny'n eithaf hawdd.
Galwr Ferched, gwnewch yr un peth . . . Iawn. Daliwch ddwylo eich gilydd a cherddwch yn araf i'r dde . . . I'r dde dywedais i – nid i'r chwith.
- Tom* Rydw i ar goll.
Merch Edrychwch ar Wil James – mae e'n waeth o lawer. Mae e wedi yfed gormod. Petai e'n gall fe eisteddai e'n llonydd am dipyn.
- Tom* Druan ohono fe! Mae e'n feddw gaib ond rydw i'n siŵr ei fod e ddim cynddrwg â fi, serch hynny.

Gwers ugain (20)

20

Yr ugeinfed wers
Tregaron



Rhan un
Dewi

Wn i ddim pa mor dda rydych chi'n 'nabod Canolbarth Cymru ond un o fy hoff drefi i ydy Tregaron. Fe fyddwn i'n dweud bod dim un dref fwy diddorol yng Nghymru. Mae pobl yn dod yma o bedwar ban y byd i ferlota neu i bysgota yn afon Teifi. Ar y sgwâr mae cofgolofn Henry Richard oedd yn Aelod Seneddol dros Ferthyr Tudful. Heddychw'r oedd e ac, yn wir, roedd e'n cael ei alw'n Apostol Heddwch. Yn ymyl y dref mae Cors Caron, cors anferth sy'n enwog am amrywiaeth ei hadar gwyllt. Unwaith bob pythefnos ar ddydd Mawrth mae mart yn cael ei chynnal yn y dref ac mae llawer o dda a cheffylau yn cael eu gwerthu yno. Dyna rywbeth ddylech chi ddim ei golli ar unrhyw gyfrif. Mae traddodiad nad pobl hael ydy'r Cardis. Yn sicr dydyn nhw ddim yn cael eu twyllo'n hawdd wrth brynu a gwerthu.

Ond mae croeso cynnes bob amser i ddiethryn yn eu plith, yn enwedig os ydy e'n siarad Cymraeg.

Rhan dau

Yn y mart

Branwen Da duon Cymreig ydy'r rheina, yntê?

Ffermwr Ie, ac mae honna'n fuwch y bydd Eirwyn Glyn-teg yn siŵr o gael pris da amdani. Dacw fe Eirwyn yn sefyll ar y chwith gyda'i gi, yn siarad â'r arwerthwr.

Tom Ie, wir. Ond beth am hwn?

Ffermwr Y tarw yma?

Tom Ie.

Ffermwr Does dim digon o gig arno. Phrynwn i ddim mono fe.

Branwen Ond edrychwch ar y rhain, 'nhad. On'd ydy moch bach yn bert?

Tom Ydyn, ond fe fydd un bach fel hwn yn tyfu'n fochyn mawr, tew, hyll.

Ffermwr Ond 'sdim ots am hynny os oes digon o gig arno. Beth bynnag, siaradwn i ddim yn rhy uchel – mae clustiau mawr gan foch bach!

**Wrth fedd Dafydd
ap Gwilym**

Dewi Roeddwn i wedi bwriadu dod yma hebddot ti.

Branwen Fyddwn i ddim wedi colli'r daith yma i Ystrad Fflur am y byd.

Dewi Rydw i'n cytuno. Er taw dim ond adfeilion sy yma erbyn hyn, maen nhw'n wych.

Branwen Pryd cafodd yr abaty ei sefydlu?

Dewi Yn y ddeuddegfed ganrif rydw i'n credu.

Branwen Ond yn y drydedd ganrif ar ddeg y cafodd Dafydd ap Gwilym ei gladdu, yntê?

Dewi Nage, wir. Roedd e'n byw yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Fe, heb os nac oni bai, ydy bardd mwyaf Cymru yn nhyb pawb.

Branwen Oni fu e'n dipyn o ferchetwr yn ei ddydd?

Dewi Do, roedd e'n hoff iawn o ferched. Doedd e ddim yn hapus hebddyn nhw, a dweud y gwir.

Branwen Ond ble mae ei fedd yn y fynwent?

Dewi Does dim sicrwydd, dim ond traddodiad lleol bod y bedd dan yr ywen fawr. Ond mae carreg goffa iddo wrth y wal.

**Mewn canolfan
grefft**



Mari Ydy'r llestri yr oeddech chi'n eu dangos imi i gyd yn cael eu gwneud yn yr ardal?

Dyn Ydyn, madam. Mae crochendy yn ysgol Castell Fflemish y tu allan i'r dref a chrochenydd a dau brentis yn gweithio yno.

Mari Beth ydy'r rhain?

Dyn Llestri llwch ac addurniadau Celtaidd arnyn nhw. Maen nhw'n naw deg ceiniog yr un.

Mari Fe gymeraf i un o'r rheina. Hwnna, yr un glas ar y chwith.

Dyn Dyna'r cyfan?

Mari Nage, fe gymeraf i siwg laeth las â'r gair "Llaeth" wedi ei 'sgrifennu arni hefyd.

Dyn Fydd hon yn iawn?

Mari Bydd. Faint ydy hi?

Dyn Punt a phedwar deg ceiniog, os gwelwch yn dda, a naw deg am y siwg. Dyna ddwy bunt a thri deg ceiniog i gyd.

Mari Gymerwch chi sic? Fe ddes i maes heb fy mhwsr.

Dyn Gwnaf â phleser.




Ystrad Fflur

Gwers un ar hugain (21)

21

Yr unfed wers ar hugain

Tua'r gogledd



Rhan un

Tom

Mae ein harhosiad yn Aber wedi bod mor blesurus nes bod Mari, Branwen a minnau ddim eisiau symud. Fe hoffon ni i gyd aros, ond mae rhaid inni fynd tua'r gogledd.

Welon ni mo Dewi y bore yma gan ei fod e'n brysur yn paratoi ar gyfer ei arholiadau.

Fe sylwodd Mari fod map ardderchog o'r gogledd-orllewin ar werth mewn siop lyfrau yn y dref. Ond, gwaetha'r modd, phrynodd hi mono fe. Fe ddywedodd Branwen wrtho i fod digon o fapiau yn llyfrgell y dref ond welais i monyn nhw pan fues i yno ddoe.

Beth bynnag, fy mwriad ydy mynd o Aber heibio i Dal-y-llyn ac ymlaen i gyfeiriad Dolgellau.

Dydyn ni erioed wedi gweld lein fach Tal-y-llyn ond rydw i'n cofio Mari a minnau'n mynd i gerdded yn yr ardal gyda'n gilydd pan oedden ni'n caru.

Wn i ddim pwy biau'r rheilffordd ond deallaf ei bod ar agor i'r cyhoedd.

Ond cyn inni drefnu'r daith rhaid wrth fap.

Rhan dau
Dillad newydd

- Branwen* 'Nhad, arhoswch funud i weld y dillad yma. Dyma siop braf!
- Tom* Dillad! Dillad! Rydw i wedi gweld mwy na digon o ddillad.
- Branwen* Ond roeddech chi wedi ffansio dau grys yn y siop yna ddoe.
- Tom* Ond phrynais i monyn nhw, serch hynny.
- Branwen* Ond edrychwch ar y ffrog felen hir yna yng nghefn y ffenest. Fe fyddwn i'n edrych yn fendigedig yn honna, oni fyddwn?
- Tom* Byddet, sbo, ond Branwen fach, paid byth â chanmol dy hun. Gad i eraill wneud hynny. A sylwa ar y pris. Mae hi'n ddau ddeg pum punt.
- Branwen* Dim ond cellwair oeddwn i. Beth bynnag, mae ffrog hir felen gen i.
- Tom* Fi brynodd honna iti ond welais i erioed monot ti'n ei gwisgo hi.
- Branwen* Dim ond unwaith y gwisgais hi hyd yma a hynny yn Chubut.
- Tom* Mae rhaid fy mod i i ffwrdd ar y pryd.
- Branwen* Fe fuoch chi a 'mam am dro i Buenos Aires gyda'ch gilydd – i siopa os cofiaf i'n iawn!
- Tom* Branwen, rwy'ti'n cellwair eto.
- Pacio**
- Mari* Branwen, ble dodaist di dy esgidiau newydd?
- Branwen* Ddodais i monyn nhw yn unman. Welais i monyn nhw y bore yma. Ond roedden nhw dan fy ngwely neithiwr.
- Tom* Dyma nhw, madam, wedi'u glanhau'n berffaith.
- Branwen* Diolch, 'nhad. On'd ydy e'n dda inni, 'mam?
- Mari* Ydy, sbo, weithiau. Crysau, hosanau, esgidiau,



- trowsus sbâr, trôns glân, siaced, siwmpwr. Tom, wyt ti eisiau rhywbeth arall?
- Tom* Nac ydw. Dyna'r cwbl, am wn i.
- Branwen* Ac rydw i wedi llenwi fy nghas hefyd. Y ffrog goch a'r un frown, dwy sgert, dau bâr o esgidiau, cot fawr a chot law, dillad isaf.
- Tom* Cofia dy ymbarél rhag ofn inni fynd i Flaenau Ffestiniog rywbryd.
- Branwen* Wrth gwrs. Dydy hi byth yn sych yno.
- Mari* Dim ond fi sy ar ôl 'nawr ond mae fy nillad i gyd gyda'i gilydd yn y stafell wely. Fe fyddaf i'n barod chwap.
- Ffarwelio â Dewi**
- Branwen* Rydw i'n sylweddoli taw dyma'r tro olaf y byddaf i'n dy weld ti cyn yr arholiadau. Felly, pob lwc iti.
- Dewi* Fe ân nhw'n iawn, paid â gofidio. Cofia di alw yng Ngholeg Harlech i holi am yr ysgoloriaeth yna.
- Branwen* Efallai y caf i aros yma wedyn.

Dewi Digon posib, dim ond iti fynd ati'n iawn.
'Sgrifennaist ti i ofyn am gyfweliad?

Branwen Do, fe 'sgrifennais i lythyr ddoe ond phostiais i mono fe.

Dewi Cofia wneud heb oedi. Efallai y bydd tipyn o gystadleuaeth am yr ysgoloriaeth gan fod o leiaf un yn dod o'r Wladfa i Goleg Harlech bob blwyddyn.

Branwen Digon gwir. Ond chadwaf i monot ti ragor gan dy fod ti mor brysur. Cofia alw yn y fflat cyn i 'mam a 'nhad fynd.

Dewi Fe fyddaf i'n siŵr o wneud. Hwyl fawr.




Eryri

22

Yr ail wers ar hugain

Harlech



Rhan un

Branwen

Weloch chi erioed Gastell Harlech?

Petaech chi'n ymweld â'r gogledd fe fyddai'n werth ichi ei weld e ar fryn uwchben y môr.

Oddi tano fe welech forfa eang a thwyni tywod ger y traeth ond rhyngddo a'r môr mae cwrs golff enwog. Rhyngon ni a'n gilydd fe fyddwn i wrth fy modd yn dod i Goleg Harlech i astudio.

Coleg i fyfyrwyr hŷn ydy e a daw llawer sy wedi bod yn astudio ar eu pennau eu hunain neu mewn dosbarthiadau nos yma am flwyddyn cyn mynd ymlaen i goleg neu i brifysgol.

Ers rhai blynyddoedd bellach bu o leiaf un yn dod yma bob blwyddyn o'r Wladfa gan fod ysgoloriaeth ar gael.

Y llynedd fe ddaeth merch a bachgen. Cafodd yr arian ei rannu rhyngddyn nhw.

Petawn i'n cael cynnig ysgoloriaeth fe dderbyniwn i e'n llawen.

Mae gen i gyfweliad yma yfory ac felly rhaid gobeithio'r gorau.

**Rhan dau
Castell Harlech**

- Branwen* Pwy gododd y castell yma?
Tom Edward y Cyntaf, wrth gwrs, ar ôl iddo orchfygu Cymru yn 1282. Roedd ganddo bensaer galluog iawn o'r enw Meistr James o Sain Sior.
- Branwen* Oedd castell yma cyn hynny?
Tom Nac oedd. Roedd hen gestyll Cymreig yng Nghricieth a Dolwyddelan, ond cafodd castell newydd sbon ei godi yma.
- Branwen* Fe ddewisodd e safle perffaith.
Tom Do, ar y trwyn uchel yma o graig. A chofia, hefyd, fod y môr y pryd hynny'n cyrraedd at ei droed.
- Branwen* Fe fyddai'n anodd ofnadwy cipio'r castell yma gan fod iddo dair gward, y naill oddi mewn i'r llall.
Tom Ac edrycha ar y porth gyda thyllau o boptu iddo a'i bont godi. Petai'r gelyn yn dod ato gallai'r amddiffynwyr dywallt cawod o fetel tawdd am eu pennau o'r muriau uwchben.
- Branwen* Ach y fi! Dyma'r castell gorau welais i erioed.
Tom Mae'n hyfryd, ond yn bersonol, mae'n well gen i Gastell Biwmares.

Cyfweliad

- Prifathro* Pryd aethoch chi i Batagonia?
Branwen Fe aethon ni dros bum mlynedd yn ôl. Cyn hynny roedd fy 'nhad yn feddyg yng Nghymru.
- Prifathro* Pam penderfynodd e ymfudo?
Branwen Roedd e eisiau cael profiad mewn gwlad arall ac yn y bôn mae e'n hoff o grwydro. Ond Cymry ydyn ni, ac fe ddown ni 'nôl maes o law.
- Prifathro* Ers pryd rydych chi yma 'nawr?
Branwen Ers Chwefror. Welon ni mo eira Ionawr, diolch byth, ac roedd Ebrill, Mai a Mehefin yn ardderchog.
- Prifathro* Oedden, ond dydy Gorfennaf ac Awst ddim yn dda



bob amser. Gyda llaw, fe wyddoch chi ein bod ni'n dechrau'r tymor ddiwedd Medi. Ond dywedwch wrtho i, pa mor bwysig ydy cael yr ysgoloriaeth ichi?
Branwen Mae hi'n bwysig iawn. Fyddwn i ddim yn gallu dod yma hebddi ac rydw i eisiau dod i astudio yma yn fwy na dim arall.

Holi am y cyfweliad

- Mari* Sut un oedd y prifathro?
Branwen Dyn dymunol iawn. Fe wnaeth imi deimlo'n gartrefol ar unwaith.
- Mari* Ac fe gest ti gynnig ysgoloriaeth?
Branwen Do, ac fe'i derbyniais hefyd. Allwn i mo'i gwrthod hi.
- Mari* Pryd byddi di'n dechrau'r cwrs?
Branwen Tua diwedd Medi neu ddechrau mis Hydref a bydd y tymor yn dod i ben yn Rhagfyr.
- Mari* Hydref, Tachwedd, Rhagfyr, dim ond tri mis. Dydy tymhorau'r Coleg ddim yn rhy hir.

Branwen Nac ydyn, ac mae'r gwyliau'n eithaf hir. Fe allaf i hedfan adref am wyliau'r haf.

Mari Gelli, sbo, ond fe fydd yn od iawn i dy dad a minnau hebddot ti.

Branwen Fe fydd yn rhyfedd i mi hebddoch chwithau hefyd. Ond, dyna fe, fel yna mae hi, sbo.

23

Y drydedd wers ar hugain

Trafod arian



Rhan un

Tom

Arian, arian! Allwch chi ddim symud heb arian y dyddiau yma.

Talu biliau, newid sieciau, galw yn y banciau, dyna i gyd rydw i'n ei wneud o fore gwyn tan nos.

Un funud mae Mari eisiau arian a'r funud nesaf mae Branwen a Dewi'n cwyno bod eu pocedi nhw'n wag. Mae'n ffodus imi fuddsoddi arian yn y wlad yma cyn ymfudo a bod y llog wedi cynyddu yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Yng ngheg y sach mae tolio, yn ôl yr hen ddihareb, ac yn wir mae'r ceiniogau wedi tyfu'n bunnoedd erbyn hyn.

Fe fyddai mwy gen i oni bai bod rhaid imi dalu trethi trwm.

Po fwya'r cyflog, mwya'r dreth, er does dim lle gan feddyg i gwyno.

Wn i ddim, fodd bynnag, sut mae hen bensynwyr heb arian wrth gefn yn cael deupen y llinyn ynghyd gyda chwyddiant ar garlam.

Druan ohonyn nhw yn gorfod chwilio am y bwydydd rhataf ac mae'r pethau pwysicaf fel glo, trydan, bara,

tatws, siwgr a 'menyn yn ddrud ofnadwy.
Druan ohonyn nhw, dyna ddywedaf i –
Ond mae'n well imi fynd i weld rheolwr y banc.

Rhan dau
Yn y banc



Tom Rydw i eisiau codi ychydig o arian. Wnewch chi dderbyn sic?

Clerc Ddim heb garden, syr. Oes gennych chi garden?

Tom Nac oes, yn anffodus. Rydw i'n byw dros y môr. Wnewch chi alw'r rheolwr?

Clerc Gwnaf, wrth gwrs.

Tom O, bore da. Tom Jones ydy fy enw i. Rydw i'n dod o Batagonia ac rydw i eisiau codi arian. Mae cownt gen i ym Manc Llywelyn yn y wlad yma, ond does dim carden gen i.

Rheolwr Popeth yn iawn, ond petawn i chi fe ofynnwn i am garden. Gaf i ffonio eich banc?

Tom Cewch, ar bob cyfrif. Cangen Heol y Frenhines, Caerdydd. Y rhif ydy Caerdydd 5627.

Rheolwr Diolch. Ydych chi'n digwydd gwybod rhif eich cownt trafod yno?

Tom Ydw, dyma fe – A 081975.

Ychydig o drafferth

Clerc Esgusodwch fi. Hon ydy'r sic roioch chi i fi?

Tom Ie. Beth sy'n bod?

Clerc Mae camgymeriad arni. Y seithfed ydy hi heddiw, nid y nawfed.

Tom Wrth gwrs. Dydd Mercher y seithfed o Orffennaf. Mae e ar y calendr ar y wal o fy mlaen.

Clerc A dydych chi ddim wedi ysgrifennu'r swm rydych chi eisiau ei godi 'chwaith.

Tom Rydych chi'n iawn. Beth sy'n bod arnaf i? Rydw i wedi codi'n rhy gynnar, siŵr o fod. Ond dyna fe: "Tri deg wyth punt" ac mae'r ffigurau'n iawn gen i hefyd y tro yma.

Clerc Wnewch chi ysgrifennu eich cyfeiriad ar y cefn hefyd, os gwelwch yn dda.

Tom Rydw i wedi esbonio i'r rheolwr eisoes taw cyfeiriad dros dro sy gen i ac felly does dim llawer o bwynt imi ei nodi, oes e?

Clerc Nac oes. Rydych chi'n iawn.

Benthyciadau

Mari Tom, wyt ti'n cofio bod arnat ti bunt i fi?

Tom Punt? Fenthyciais i ddim arian gennyt ti!

Mari Do, fore ddoe. Fe est ti allan heb arian ac fe ofynnaist am bunt i brynu sigarêts a phapur.

Tom Do, wrth gwrs. Rwy'ti'n iawn, mae arnaf i bunt iti. Ond mae arnat ti ddwy bunt i fi oddi ar neithiwr.

Mari Dwy bunt? Dydw i ddim yn cofio.

Tom Nac wyt, sbo. Dy bwrs? Fe est ti maes hebddo ac fe roiais i fenthyc arian iti i brynu siocled.

Mari Rydw i'n cofio'n iawn 'nawr. O'r gorau, gelli di anghofio'r bunt.

Tom Ond mae arnat ti bunt i fi o hyd.


Mari Tom, rwyf ti'n mynd yn eithaf cybydd yn dy hen ddyddiau.

Gwers pedwar ar hugain (24)

24

Y bedwaredd wers ar hugain

**O gwmpas
Trawsfynydd**



**Rhan un
Branwen**

Does dim amheuaeth taw yng Nghymru rydyn ni yma yn Nhrawsfynydd.

O'n cwmpas mae mynyddoedd cadarn Eryri a'r Wyddfa ei hun yn frenhines arnyn nhw.

Os na fuoch yno mae'n werth taro i mewn i'r pentref oddi ar y ffordd osgoi a cherdded drwyddo. Pentref sy'n llawn o wrthgyferbyniadau ydy e gyda'r ffermydd a'r atomfa, yr hen a'r newydd ochr yn ochr.

Rywfodd fe lwyddodd Traws i gadw ei gymeriad er gwaetha'r newidiadau.

Mae rhaid bod Cymreictod y bobl yn eithaf gwydn i'r traddodiadau Cymraeg ddal eu tir gystal.

Os dewch chi yma fe welwch chi gofgolofn Hedd Wyn, y bardd-fugail y bu cymaint o sôn amdano.

Fe fydd y pentrefwyr yn siŵr o'ch cymell i bysgota yn y llyn – y mae brithyll gorau Cymru ynddo.

Petaech chi'n dod ato ar hyd y ffordd fawr o gyfeiriad Dolgellau prin y gwelech y pentref gan mor berffaith mae'n ymdoddi i'w gefndir mynyddig. Ond gadewch inni fynd am dro o gwmpas.

**Rhan dau
Wrth y gofgolofn**

- Branwen* Bugail oedd Hedd Wyn, yntê?
Tom Ie, bugail ar y bryniau moel yma o gwmpas y pentref. Roedd ganddo ddigon o heddwch i feddwl, mae'n siŵr.
- Branwen* Oedd, ond dywedodd Dewi wrtho i ei fod e ddim yn fardd mawr.
Tom Nac oedd, ond mae pob Cymro'n cofio amdano fel bardd "Cadair Ddu Penbedw 1917".
- Branwen* Beth ddigwyddodd, felly?
Tom Wel, fe aeth e dros y môr i Ffrainc i ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf a thra oedd e yno fe anfonodd e awdl y bu e'n ei chyfansoddi yn y ffosydd i Eisteddfod Genedlaethol Penbedw.
- Branwen* Ac fe enillodd e, on'd do fe?
Tom Do, ond yn anffodus fe gafodd e ei ladd ychydig cyn y 'Steddfod. Doedd dim cadeirio ond taenwyd lliain du dros y gadair.
- Branwen* A dyna pam mae'r gofgolofn yma, efe?
Tom Ie, dyna pam mae bugail a'i gi'n dal i sefyll ar stryd fawr y pentref a Chymry'n dal i gofio am fardd fu farw'n ifanc.

**Swyddfa'r Bwrdd
Croeso**

- Mari* Wnewch chi 'sgrifennu'r cyfeiriadau yna ar bapur, os gwelwch yn dda?
Swyddog Gwnaf, â phleser. Rydw i'n siŵr y bydd y llety yna'n eich taro'n iawn.
- Mari* Oes modd cael pryd gyda'r nos yn ogystal â gwely a brecwast?
Swyddog Oes, mae'n siŵr, ond byddwch yn ofalus wrth fynd at y fferm. Mae'r ffordd braidd yn gul.

- Mari* Faint y noson fydd y cwbl?
Swyddog O, ddim mwy na thair punt hyd y gwn i. Sawl un ydych chi 'te?
- Mari* Tri – fy ngŵr, fy merch a minnau.
Swyddog Bydd angen dwy stafell wely, felly?
Mari Bydd, er y byddai'n bosib inni rannu petai rhaid. Gyda llaw, gan eich bod chi wedi mynd i'r fath drafferth, oes rhywbeth i'w dalu?
- Swyddog* Dim ond deg ceiniog am yr alwad ffôn. Mae'n rhan o wasanaeth y Bwrdd Croeso.

Dringo'r Wyddfa



- Branwen* Gaf i ddal eich llaw, 'nhad? Mae'r llwybr mor serth.
Tom Cei, gelli di ymddiried ynof i, ond fe ddylet fedru dringo'n well na fi gan dy fod yn ifanc.
- Mari* Beth amdanaf i? Rydw i ar lawr.
Tom Rydyn ni bron â chyrraedd y copa.

- Branwen* Faint sy i'w ddringo eto?
Tom Ryw ganllath ac yna fe allwn ni orffwys.
Mari Oedd rhaid inni ddringo a'r trên mor gyfleus?
Tom Ffolineb fyddai talu tair punt yr un i ddod ar y trên a ninnau'n ddigon heini i ddringo.
- Branwen* Byddwch yn ofalus, 'nhad, mae'r dibyn i'r chwith yn beryglus.
Tom Popeth yn iawn. Dyna ni. Ond edrychwch ar y sbwriel. Mae'n ofnadwy, on'd ydy e?
Mari Ydy, mae'n warthus bod twristiaid ddim yn parchu'r lle. Ond edrychwch ar yr olygfa.
Tom Dyna Ynys Manaw yn y pellter.
Branwen Mae hi mor glir â grisial heddiw.

Gwers pump ar hugain (25)

25

Y burned wers ar hugain
Yr Eisteddfod



Rhan un

Tom

Mae cymaint i'w wneud fe fydd rhaid inni ddewis yn ofalus o'r rhaglen yma.

Ar ddydd Llun mae cyn-fyfyrwyr y Brifysgol yn cwrdd. Fe af i yno.

Efallai y gwelaf i rai hen gyfeillion.

Fe welwn ni'r coroni ar ddydd Mawrth a gobeithio y gallwn ni weld y dramâu y bu cymaint o sôn amdany'n nhw ar nos Fawrth a nos Wener.

Fe awn ni i wrando ar y cystadlaethau yn y Pafiliwn ddydd Mercher. Ac fe arhoswn ni yno ar brynhawn dydd Iau i weld y cadeirio.

Fe gawn ni gyfle i fod ar y llwyfan ddydd Gwener gyda'r Cymry ar Wasgar. I orffen yr wythnos fe glywn y corau meibion ar ddydd Sadwrn.

Fe aiff Dewi a Branwen i rai o'r nosweithiau llawen a'r dawnsfeydd. Ond maen nhw'n rhy hwyr i mi.

Allaf i ddim mynd i bopeth ond chollaf i ddim llawer yn ystod yr wythnos, gallwch chi fentro.

Ac am Dewi a Branwen, chollan nhw ddim llawer 'chwaith. Pwy enilliff y gadair eleni, tybed?

Ar ddydd Mawrth a dydd Iau fe fyddwn i gyd ar

bigau'r drain. Aiff y goron i'r de neu i'r gogledd?
Pwy a wŷr? Ond fe fydd hi'n wythnos ddiddorol i
ni i gyd gan na fuon ni yn yr Eisteddfod ers tro.

Rhan dau

Prynu tocynnau

Mari Fe gymeraf i ddau docyn i ddrama nos Fercher ac
un i'r Pafiliwn ddydd Iau. Oes rhai gennych chi?

Gwerthwr Tocynnau Oes. Dyna'r cwbl?

Mari Nage wir, oes tocynnau i'r Pafiliwn gennych chi ar
gyfer y coroni ddydd Mawrth.

Gwerthwr Tocynnau Oes. Gymerwch chi rai o res C?

Mari Gwnaf, dau os gwelwch yn dda, tua'r canol os oes
modd.

Gwerthwr Tocynnau Ac fe ddywedoch chi rywbeth am ddrama, on'd
do fe?

Mari Do, fe hoffwn i weld drama Saunders Lewis ar nos
Fawrth.

Gwerthwr Tocynnau Chollwn i moni am y byd 'chwaith gan fod Jonah
Jones yn actio ynddi. Sawl tocyn?

Mari Dau, os gwelwch yn dda. Gyda llaw, gymerwch chi
siec?

Gwerthwr Tocynnau Gwnawn, wrth gwrs. Gwnewch hi'n daladwy i
Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru.

Mari A faint sy arnaf i i chi i gyd?

Gwerthwr Tocynnau Naw punt a phum deg ceiniog, os gwelwch yn dda.

Damwain

Branwen Gafodd 'nhad docynnau, ys gwn i?

Dewi Siŵr o fod. Er bod yr Eisteddfod yn boblogaidd
werthan nhw mo'r tocynnau i gyd cyn diwedd
Gorffennaf.

Branwen Edrycha, Dewi. Beth sy'n bod yma? (*Stopio*)

Dewi Damwain. Mae'n edrych fel petai'r car yna newydd



wrthdaro â beic modur. Ac mae gyrrwr y beic modur
yn gorwedd ar y llawr yn waed i gyd.

Branwen Beth wnawn ni?

Dewi Fe yrraf i ymlaen i 'nôl help.

Branwen Ac fe af i at y bachgen ifanc yna, druan ohono.
Ac mae'n ymddangos bod rhywbeth yn bod ar
gyrrwr y car hefyd, os nad ydw i'n camsynied.

Ffonio am help

Dewi Gaf i ddefnyddio eich ffôn, os gwelwch yn dda?
Mae damwain tua milltir i lawr yr heol.

Gwraig Wrth gwrs. Oes rhywun wedi ei anafu'n ddifrifol?

Dewi Rydw i'n ofni bod.

Gwraig Dyna'r ffôn.

Dewi (yn ffonio) Naw, naw, naw . . . Hylo! Yr heddlu, os gwelwch yn
dda . . . Mae damwain wedi digwydd hanner ffordd
rhwng Caerlan a Brynsiriol . . . Gwrthdrawiad rhwng
beic modur a char . . . Anfonwch ambiwlans ar
unwaith . . . Ydy, mae'n edrych yn ddifrifol i fi.
Diolch.

Gwraig Ddaw rhywun cyn bo hir?
Dewi Fe ddaw'r heddlu cyn gynted ag y bydd modd.
Gwraig Dôn, siŵr.
Dewi Fe af i 'nôl yno'n syth gan fod fy chwaer yno.
Gwraig Arhoswch! Fe dynnaf i fy ffedog oddi amdanaf i ac fe ddof i gyda chi rhag ofn y gallaf i fod o help.

Gwers chwech ar hugain (26)

26

Y chweched wers ar hugain
**Branwen ar Faes
yr Eisteddfod**



**Rhan un
Branwen**

Chredwch chi ddim faint o bobl sy'n crwydro'r maes yma er taw ond bore dydd Llun ydy hi. Welaf i mo Dewi er ei fod e o gwmpas yn rhywle. Rydw i'n meddwl yr aiff e i grwydro'r maes gyntaf ond rydw i'n siŵr y byddwn ni'n cwrdd â'n gilydd rywbyrd. Fe welaf i rywun rydw i'n ei 'nabod cyn bo hir yn fwy na thebyg. Ond tybed 'nabyddiff pobl fi gan fy mod i ddim wedi bod yng Nghymru cyhyd. Cyn dechrau crwydro fe yfaf i lasaid o laeth gan ei bod hi mor boeth. Dydy 'mam a 'nhad ddim yma eto ond fe ddôn nhw toc. Â'n nhw ddim i'r Pafiliwn yn syth. Aiff 'nhad i'r Babell Lên a 'mam i Babell y Cymdeithasau. Yn ôl y trefniadau wnaethon ni fe gwrddwn ni am un ar ddeg o'r gloch ac fe awn ni i gyd i un o'r banciau am goffi. Pwy gaiff ei goroni tybed? Merch efallai gan taw

dim ond dwy sy wedi ennill y goron erioed.
Cyn bo hir fe ddechreuiff y bandiau pres ac fe fydd
tipyn o sŵn yma wedyn.

Rhan dau
Crwydro'r Maes

- Tom* Arhosiff dy fam yn yr arddangosfa Gelf a Chreffft ac fe awn ni i grwydro.
- Branwen* O'r gorau. Ble dechrewn ni?
- Tom* 'Sdim gwahaniaeth a dweud y gwir. Beth am gerdded draw i gyfeiriad Y Theatr Fach?
- Branwen* Welwn ni rywbeth yno 'nawr?
- Tom* Gwnawn. Maen nhw'n dangos ffilm Gymraeg newydd y bydd yn werth ei gweld am hanner awr wedi un ar ddeg.
- Branwen* Fe fwynheua i honna. Ond mae'n anodd cofio ble mae pethau gan fod cymaint yma.
- Tom* Fe ddoi di i 'nabod y maes cyn diwedd yr wythnos.
- Branwen* Wyddoch chi beth ydy'r babell liwgar yna y mae llawer o blant yn sefyll o'i blaen hi?
- Tom* Honna ar y dde?
- Branwen* Ie.
- Tom* Na, wn i ddim wir.
- Branwen* Pabell y Mudiad Ysgolion Meithrin.
- Tom* Mae hi'n dra gwahanol i'r lleill.
- Branwen* Ydy, ond mae'r rhan fwyaf o'r pebyll wedi eu cynllunio'n ofalus.
- Tom* Ydyn, chwarae teg. Ond dyma ni wrth Y Theatr Fach.

Trefnu oed

- Emyr* Ddoi di i'r ddawns werin gyda fi heno?
- Branwen* Gwnaf, ond faint o'r gloch a ble?
- Emyr* Yn Ysgol y Foel am hanner awr wedi deg.
- Branwen* A phryd gorfenniff hi?



- Emyr* Dyn a wŷr. Does neb yn edrych ar y cloc wythnos yr Eisteddfod.
- Branwen* O'r gorau, ond ble cwrddwn ni â'n gilydd?
- Emyr* Ger cloc y dref am ddeg o'r gloch. Ond bydd yn brydlon. Arhosaf i ddim amdanat ti os wyt ti'n hwyr, cofia!
- Branwen* Naw wfft i'r fath ŵr bonheddig!
- Emyr* Dim ond cellwair oeddwn i.
- Branwen* Fe wisgaf i fy ffrog goch newydd welaist ti moni eto.
- Emyr* 'Nabyddaf i monoch chi, Miss Jones.
- Branwen* Os na fyddi di yn ofalus, 'nabyddaf i monot ti 'chwaith, Emyr Lewis.

Yn y pafiliwn

- Dewi* Ydych chi'n gweld y dyn yna sy'n eistedd ar y chwith ar y llwyfan?
- Mari* Ydw, y dyn mawr yna oedd yn siarad gynnuau?
- Dewi* Ie. Fe ydy Syr Elwyn Tomos, Cadeirydd Llys yr Eisteddfod.

- Branwen** Dyna'r dyn y siaradodd 'nhad ag e y bore yma ynglŷn â seremoni'r Cymry ar Wasgar.
- Dewi** Fe ydy Llywydd y dydd heddiw?
- Mari** Nage, Mr. Gwyn Williams, Aelod Seneddol y sir sy'n mynd i siarad.
- Branwen** Dyna fe, y dyn ifanc, sy'n eistedd yn ymyl y cadeirydd?
- Dewi** Ie. Fe ofynniff yr arweinydd am osteg mewn munud ac fe ddechreuiff yr araith wedyn.
- Branwen** Pwy gyflwyniff y Llywydd – y Cadeirydd neu'r Archdderwydd?
- Mari** Yr Archdderwydd, rydw i'n credu. Dyna fe ar ei draed 'nawr.
- Dewi** Duw a'n gwaredo ni rhag araith hirwyntog!

27

Y seithfed wers ar hugain
Dychwelyd i'r gorllewin



Rhan un
Siân Jones

Fe daclusaf i'r gegin a pharatoi cinio cyn mynd at y deintydd.

Dyna anlwc, yn gorfod mynd at y deintydd heddiw o bob diwrnod a'r rheina'n dod, yntê?

Ond dyna fe, fe ddywediff Williams y deintydd fy mod i'n lwcus bod dannedd gen i o gwbl o ystyried fy oedran.

Weithiau rydw i'n tybio y byddai'n well bod hebddydd nhw.

Beth bynnag, does dim amser gen i i hel meddyliau gan fod gwaith i'w wneud.

Pryd daw Tom a'r teulu? Tua hanner dydd, sbo. Ddôn nhw i gyd? Efallai yr aiff Dewi at ei ffrindiau yn Aber er ei bod hi'n wyliau yn y Coleg 'nawr. Gobeithio ddôn nhw ddim hebddo fe.

Ond ysgrifenniff e ataf i cyn dechrau'r tymor sbo yn gofyn am gael dod i fwrw'r Sul gyda fi.

Rhyngoch chi a fi, rydw i wrth fy modd pan ddaw e – gwaith ychwanegol neu beidio.

Fe osodaf i'r ford yn barod ac fe ddodaf i'r pwddin reis wnes i gynnu yn y ffwrn rhag ofn y byddaf i'n hwyr yn dod adref.

Rhan dau
Y llyfrgell deithiol

- Branwen** Beth ydy'r fen yna sy wrth y drws?
Siân O, dyna'r llyfrgell deithiol. Wrth gwrs, mae'n ddydd Mercher, ac mae'n galw yma bob yn ail wythnos. Wn i ddim beth wnawn i hebddi. Dewch i'w gweld hi.
Gyrrwr Bore da, Mrs. Jones. Sawl llyfr rydych chi eisiau ei fenthyg heddiw?
Siân Arhoswch funud. Fyddai gwahaniaeth gennych petai perthynas i mi o Batagonia yn gweld eich fen?
Gyrrwr O Batagonia, efe? Caiff, wrth gwrs, â chroeso.
Siân Dyma'r llyfrgell, Branwen. On'd ydy hi'n ardderchog?
Branwen Ydy, wir. Mae'n well o dipyn na'r hen lyfrgell oedd yn y pentref 'slawer dydd. Pan ddywedaf i wrthyn nhw yn Nhrelew chredan nhw mono i. Llyfrau Cymraeg yn dod i'r drws, ac yn dod yn gyson.
Siân Fel y cloc. Rydw i'n gallu ymddiried ynddo fe i fod yma bob dydd Mercher am ddau o'r gloch â stoc o lyfrau safonol ac nid y sothach welwch chi yn siopau'r dref.

Llun yn 'Y Cymro'

- Tom** Chredi di ddim beth sy yn 'Y Cymro', Branwen.
Branwen Beth?
Tom Dy lun di – llun ohonot ti'n dawnsio mewn disgo adeg y 'Steddfod.
Branwen Gadewch i fi ei weld e. O, dyna lun da ohonof i, os caf i ddweud.
Tom Os na ddywedi di ddywediff neb arall drosot ti. Pwy ydy hwnna yr oeddet ti'n dawnsio gyda fe?
Branwen Bachgen o'r enw Emyr o Abertawe, os cofiaf i'n iawn. Ond dydw i ddim yn cofio dim byd arall amdano fe.




- Tom** Pen pwy ydy hwn yng nghanol y llun? Un Dewi?
Branwen Nage, welwch chi mono fe o gwbl. Fe aeth e am dro gyda'i gariad cyn i'r tynnwr lluniau gyrraedd.

Siarad am ddychwelyd
i Batagonia

- Siân** Tom, pam nad arhosi di yng Nghymru? Fe fuest ti ers pum mlynedd dros y môr ac mae'n hen bryd iti ddod adref.
Tom Allaf i ddim, ar hyn o bryd, modryb, achos mae yna lawer rhagor o waith i'w wneud yno.
Siân Ond mae'r plant am aros. Fe dorrieff Branwen ei chalon os na chaiff hi aros.
Tom Efallai yr awn ni 'nôl hebddi hi.
Siân Mynd 'nôl hebddi! Sut?
Tom Mae hi'n gobeithio y clywiff hi rywbeth o Goleg Harlech yn ystod y dyddiau nesaf.
Siân Wrth gwrs, fe anghofiais i am hynny.
Tom Mae Mari a minnau'n eithaf gobeithiol y bydd hi'n llwyddiannus. Edrychwch ar y rhain.

Siân Beth ydyn nhw?

Tom Dau docyn awyren o Lundain i Buenos Aires.
Dydyn ni ddim wedi sicrhau lle i Branwen o gwbl.



Neuadd y Ddinas, Abertawe

Gwers wyth ar hugain (28)

28

Yr wythfed wers ar hugain
Cyfweiliad teledu



Rhan un
Tom

Ysgrifennodd y BBC ataf i ddechrau'r wythnos yn gofyn imi ymddangos ar "Heddiw" cyn inni ddychwelyd.

Rhyngon ni a'n gilydd rydw i'n teimlo'n lled nerfus yma yn y stiwdio.

Fe gaf i fy holi gan Alun Daniel sy wedi bod yn cyflwyno'r rhaglen ers rhai blynnyddoedd bellach. Dydy Mari a Branwen ddim gyda fi yng Nghaerdydd. Fe ddes i hebbydyn nhw ond fe welan nhw'r rhaglen yng Nghwmllynfi.

Rydw i'n siŵr yr edrychiff pawb yng Nghwmllynfi ar y rhaglen achos roedd erthygl amdanon ni yn y papur bro "Llais Llynfi" wythnos yn ôl.

Roedd rhaid eu bod nhw'n brin o eitemau i ofyn i fi ymddangos heno.

Mae gen i restr o eitemau'r rhaglen o fy mlaen. O edrych drwyddi fe welaf i fod cryn amrywiaeth yn yr eitemau.

Fe fydd dau Aelod Seneddol yn trafod y sefyllfa wleidyddol.

Wedyn daw ffilm o grefftwr o ardal y Bala – saer

rydw i'n meddwl.
Ffilm wedyn am fabolgampau, ac i gloi, fy eitem i.

Rhan dau

Coluro

Tom Chredais i ddim y cawn i fy ngholuro fel hyn.

Merch Mae rhaid, neu fe fyddai eich wyneb yn edrych yn rhyfedd ar y sgrîn. 'Nawr ychydig o'r powdwr yma ar eich wyneb.

Tom Ydych chi'n ei roi e drosto fe i gyd?

Merch Peidiwch â phoeni — ac ychydig o ddu ar eich aelïau. 'Nawr edrychwch arnoch eich hun yn y drych. Gwelliant?

Tom Rydw i'n rhy hen ichi wella fy wyneb i. Ac mae trwyn cam gen i, beth bynnag.

Merch Rydych chi'n edrych yn iawn ond fe edrychwch chi'n well os cribwch eich gwallt.

Tom Does dim crib gen i.

Merch Dyma un. Pob lwc ichi ar y rhaglën a dewch 'nôl ataf i'n syth wedyn er mwyn imi gael gwared â'r powdwr a'r paent oddi ar eich wyneb.


Newyddion

Alun Daniel

Dyma benawdau newyddion Cymru. Heddiw yn Llundain dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru fod gwelliant sylweddol yn y ffigurau di-waith yng Nghymru yn ystod y tri mis a aeth heibio.

Gostyngodd y canran o bump y cant i bedwar pwynt pump y cant. Credid ar ddechrau'r flwyddyn y byddai'r sefyllfa'n gwaethygu, ond dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod y gostyngiad yn brawf bod polisiau'r Llywodraeth yn llwyddo.

Daethpwyd o hyd i gorff dyn yn Afon Teifi ger Aberteifi heddiw. Ni chyhoeddwyd ei enw eto gan



Morgannwg 196 am 4
Gwlad yr Haf 305

BBC CYMRU

fod yr heddlu'n dal i wneud ymholiadau ond credir ei fod tua chwe deg oed.

Bydd saith aelod o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ymddangos o flaen ynadon Dolgellau yfory ar gyhuddiad o wneud difrod i arwyddion ffyrdd yng nghyffiniau'r dref dros y Sul.

Llosgwyd pum erw o goed o eiddo'r Comisiwn Coedwigaeth mewn tân neithiwr yng Nghoedwig Hafren yng Nghanolbarth Cymru. Drwgdybir mai plant ysgol a welwyd yn gynharach yn y cyffiniau a oedd yn gyfrifol am ddechrau'r tân.

Ac un sgôr criced i orffen. Yn y gêm rhwng y siroedd a chwaraewyd heddiw yng Nglyn Ebwy rhwng Morgannwg a Gwlad yr Haf y sgôr oedd Morgannwg 196 am bedair wiced. Yn y batïad cyntaf sgoriodd Gwlad yr Haf 305. Felly maen nhw 109 ar y blaen ond mae gan Morgannwg chwe wiced mewn llaw.

Sgwrs am y rhaglen

- Jac* Fe welais i dy dad ar "Heddiw" heno.
Dewi Yn anffodus welais i mono fe achos fy mod i allan ar y pryd. Ond ti ydy'r ail i ddweud wrtho i amdano fe. Oedd e'n iawn?
Jac Roedd e'n ddi-ddorol iawn yn esbonio pam aeth e i weithio dros y môr a pha newidiadau y sylwodd e arnyn nhw ar ôl dychwelyd.
Dewi Wn i ddim ydy e eisiau mynd 'nôl ai peidio, a dweud y gwir.
Jac Fe awgrymodd e hynny ar y rhaglen ond dywedodd e fod ganddo lawer rhagor o waith i'w wneud.
Dewi Prin ei fod e'n debyg o aros y tro yma. Ond rydw i'n gobeithio yr arhosiff Branwen.
Jac Sawl chwaer sy gennyt ti?
Dewi Dim ond un, diolch byth. Weithiau mae un yn ormod.



Afon Teifi, Cernarth (Dyfed)

Gwers naw ar hugain (29)

29

Y nawfed wers ar hugain
Gorchwylion munud
olaf



Rhan un
Mari

Mae ein gwyliau bron â dod i ben a daeth yn bryd inni ystyried troi 'nôl i'r Wladfa. Fe glywon ni y bore yma fod Branwen yn cael aros yng Nghymru i ddilyn cwrs yng Ngholeg Harlech. Roedden ni i gyd wrth ein bodd, yn enwedig Dewi. Tra ei bod hi yno fe gaiff e ei chwmni ambell waith. Roedd rhaid inni alw yn y banc y bore yma i drefnu rhai materion ariannol a'r prynhawn yma fe alwaf i yn y Swyddfa Deithio i sicrhau bod trefniadau'r daith 'nôl yn iawn. Mae'n anodd iawn i Gymry ymadael â'u gwlad ac mae fy nghalon fel y plwm wrth feddwl am adael y plant yma. Ond ar ôl inni gyrraedd Trelew fe fydd gen i atgofion melys am wyliau bendigedig. Mae hi'n werth troi'n alltud i sylweddoli pa mor hyfryd ydy Cymru – ei phobl a'i thraddodiadau yn ogystal â'i phrydferthwch naturiol, ei chymoedd, ei llynnoedd, ei mynyddoedd a'i dyffrynnoedd sy gyda'r harddaf yn y byd. Mae hi'n wlad fedrwrch chi ddim peidio â'i charu.

Mae hi'n anodd ffarwelio â hi ar unrhyw adeg ond fe fydd yn anos troi 'nôl heb y plant y tro yma.

**Rhan dau
Prynu llyfrau**

- Tom* Wnewch chi estyn hwnna imi, os gwelwch yn dda?
Merch Y llyfr â llun dwy fenyw arno?
Tom Ie, beth ydy'r teitl?
Merch "Tywyll Heno", nofel ydy hi gan Kate Roberts.
Tom Wrth gwrs, mae gen i gopi gartre'n barod. Ond fe gymeraf i hon gan John Rowlands a honna ar y silff gan T. Rowland Hughes. 'Nawr faint ydy'r rhain i gyd?
Merch Gadewch imi weld, syr. Dyna werth pum punt ac un deg wyth ceiniog. A pheidiwch ag anghofio'r rheina ar y cownter arall. Mae hunangofiant, nofel a dwy gyfrol o farddoniaeth yno hefyd.
Tom Wel! Wel! Beth sy'n bod arnaf i. Roeddwn i wedi anghofio amdanyn nhw'n llwyr.

Y siop drin gwallt

- Branwen* Wnewch chi ei dorri e'n fyrrach, os gwelwch yn dda?
Merch Ydych chi'n siŵr? Mae gwallt hir, tonnog, hardd gennyh chi.
Branwen Ond rydw i wedi blino arno fe. Ac rydw i'n hoffi gwallt byr, syth.
Merch Fel sy gen i. Gadewch inni gyfnewid.
Branwen Mae'n drueni fedrwn ni ddim. Fe fyddwn i'n hapusach, beth bynnag.
Merch A minnau hefyd. Gaf i dorri ond ychydig ohono fe? Mae gen i syniad newydd fydd yn siŵr o'ch taro i'r dim.
Branwen Cewch, o'r gorau. Chi sy'n gwybod.
Merch Fe dorraf i ychydig, yna ei olchi ac wedyn fe gewch chi weld.



- Branwen* Ond cyn ichi ddechrau, faint fydd y cwbl?
Merch Peidiwch â phoeni, dim ond dwy bunt. Dydw i ddim yn un sy'n blingo myfyrwyr.

Amserau'r trêr

- Tom* Os daliwn ni drên pum munud i naw oddi yma fe gyrhaeddwn ni Gaerdydd erbyn pum munud ar hugain wedi deg.
Mari Cyn ichi benderfynu fe fydd yn well ichi wybod pryd bydd y trêr yn ymadael â Chaerdydd.
Tom Am y trydydd tro, Mari. Fe fydd e'n ymadael â phlatfform dau am ddeng munud wedi un ar ddeg ac yn cyrraedd Llundain am ugain munud i ddau.
Mari Ond beth am gyrraedd Maes Awyr Heathrow wedyn?
Tom Bydd gynnw ni ddau ddewis. Gallwn ni naill ai dal y bws neu gymryd taci.
Mari Taci neu fws fydd orau? Fe gostiff daci ormod. Oes amserlen bysys gennyt ti?
Tom Does dim eisiau gan fod y cwmni teithio sicraodd

docynnau droston ni wedi trefnu bws o ganol
Llundain.

Mari A phryd bydd hwnna'n cychwyn?

Tom Am ddeng munud wedi tri. A gobeithio fy mod i
wedi ateb dy holl gwestiynau, madam.

Mari Paid â gwylltio, Tom. Dim ond trio helpu roeddwn i.

Gwers deg ar hugain (30)

30

Y ddegfed wers ar hugain

Dewi'n poeni



Rhan un

Dewi

Wyddoch chi ddim pa mor anodd ydy hi i mi weld
'mam a 'nhad yn hedfan 'nôl i Ariannin heddiw.
Ond mae'n gysur imi fod Branwen yn aros. Tra bôn
ni'n dau gyda'n gilydd fydd pethau ddim cynddrwg.
Fe gawson ni chwe mis hapus yng nghwmni'n gilydd
ac fe ymwelon ni â llawer o leoedd diddorol.
Ond 'nawr rhaid wynebu'r daith hyd y draffordd i
Llundain i ffarwelio â nhw. Y fath siwrnai!
Ond drwy ddilyn y cyfarwyddiadau ges i gan y
Gymdeithas Foduro fe ddof i o hyd i'r awyrenfa'n
hwyr neu'n hwyrach sbo.
Rydw i'n ceisio cuddio fy ngofid rhag ofn i 'mam
boeni.
Er imi fenthyg mapiau da gan ffrind bron na roiwn i
unrhyw beth am beidio â mynd.
Fe edrychais i arnyn nhw gymaint bron na fedrwn
yrru yno â'm llygaid ynghau.
Petai Ifor, y ffrind y ces i fenthyg y mapiau ganddo
gyda fi, fyddwn i ddim yn ofni o gwbl gan mor
gyfarwydd ydy e â gyrru mewn dinasoedd mawr.
Efallai fy mod i'n poeni heb fod eisiau.
Beth bynnag, cawn weld!

Rhan dau
Siân Jones yn yr
awyrenfa

- Branwen* Welais i erioed y fath le. Mae yma rai o bob lliw a llun o bob gwlad dan haul.
- Siân* Indiad ydy honna a Sienead ydy hwnna, os nad ydw i'n camsynied.
- Branwen* Nage, modryb. Siapanead ydy e.
- Siân* Does yna fawr o wahaniaeth. O, ac edrycha ar faint yr awyrennau yna. Prin y credaf i y gallan nhw godi oddi ar y ddaear o ystyried eu maint.
- Branwen* Mae'r ddwy yna'n gallu hedfan yn gynt na sain, ac yn yr un y maen nhw'n rhoi tanwydd ynddi ar y chwith y bydd 'mam a 'nhad yn mynd.
- Siân* Paid â sôn. Ond dyma nhw'n dod. Dydy dy fam ddim yn edrych yn rhyw hapus iawn.
- Branwen* Pwy fyddai ar adeg fel yma? Gallwch fentro y cawn ni i gyd drafferth i beidio â llefain.
- Siân* Branwen, paid â bod yn fabi, da ti.

Edrych ymlaen at
waith

- Tom* Tridiau eto ac fe fyddaf i 'nôl wrth fy ngwaith.
- Mari* Alli di ddim anghofio am dy waith, alli di? Yr ysbyty, y cleifion, dy ymchwil.
- Dewi* Chwarae teg i 'nhad. Mae'r gwaith y mae e'n ei wneud o bwys iddo fe ac o bwys i eraill, o ran hynny.
- Mari* Dydw i ddim yn amau hynny ond sut ar wyneb daear y gall e sôn am bethau felly a minnau'n dy adael di a Branwen yma?
- Tom* Ond Mari, dydyn nhw ddim yn blant mwyach. Yn Ariannin mae merched oed Branwen yn famau a chanddyn nhw dwr o blant wrth eu cytau.
- Mari* Nid dyna'r pwynt. Hi ydy ein cyw melyn olaf ac allaf i ddim peidio â theimlo'n bryderus drosti.

Dewi Peidiwch â becco, 'mam, fe gadwaf i olwg arni hi. Fe fydd hi'n dwyn enwogrwydd i'r teulu gyda hyn pan ddaw hi'n actores enwog.

Ffarwelio

- Tom* Mae'n well inni fynd, Mari. Mae rhai o'r teithwyr eisoes wedi mynd draw at yr awyren.
- Mari* Cofia ysgrifennu, Branwen, a thithau hefyd, Dewi. A chofiwch eich bod chi'n gofalu amdanoch eich hunain.
- Branwen* Fe wnawn ni hynny, 'mam. Peidiwch â phoeni.
- Dewi* Cofiwch fi at y bechgyn yn Nhrelew a dywedwch fy mod i'n gobeithio dod i'w gweld nhw y flwyddyn nesaf, os Duw a'i myn.
- Tom* Dere ymlaen, Mari, a phaid â gwneud ffwl ohonot dy hun yn llefain fel yna.
- Dewi* A thithau hefyd, Branwen. Rwy'ti fel drychiolaeth. Mae'n well ichi ei gwadnu hi neu fe aiff yr awyren hebddoch chi.
- Tom* Hwyl 'te, blant.
- Mari* A chofiwch ysgrifennu.
- Branwen* Siwrnai dda ichi.



Seiniau'r Gymraeg

I Llafariaid

- | | |
|----------------------|-------------------------|
| 1 mab plas rhan parc | 5 llun un pump punt |
| 2 de ble merch gweld | 6 dŵr ffŵl cwm wrth |
| 3 gwir mis prin inc | 7 dyn tŷ bryn byw yn fy |
| 4 bod ffôl coleg ond | |

II Deuseiniaid

- | | | |
|--------------|-------------|-------------|
| 8 gwraig | 9 Cymraes | 10 dau |
| 11 mawr | 12 dweud | 13 gweithio |
| 14 meysydd | 15 newydd | 16 oer |
| 17 troi | 18 cyffrous | 19 brown |
| 20 lliw | 21 byw | 22 Duw |
| 23 gwyn bwyd | | |

III Cytseiniaid

- | | |
|------------------|--------------------|
| 24 bach seboni | 25 cae clocliau |
| 26 chwech achos | 27 dyma codi |
| 28 heddiw diwedd | 29 felly yfed |
| 30 ffatri coffi | 31 gwers agor |
| 32 dringo angen | 33 hwyl hefyd |
| 34 jam garej | 35 lolfa doliau |
| 36 lleol colli | 37 moron tymor |
| 38 nos tynnu | 39 poeth popeth |
| 40 pen a phensil | 41 radio caru |
| 42 rhestr rhoi | 43 sych dwsin |
| 44 tocyn ateb | 45 athrawes pethau |

IV Aceniad

- | | |
|-------------|-------------|
| 46 pawb | 47 môr |
| 48 clogwyn | 49 Indiad |
| 50 Iwerddon | 51 meddygol |
| 52 paratoi | 53 osgoi |
| 54 glanhau | 55 caniatáu |

V Yr Wyddor

A B C CH D DD E F FF G NG H I L LL
M N O P PH R RH S T TH U W Y (J)

